

Crynodeb ac Argymhellion
ADRODDIAD
AROLWGW

LLYSOEDD TROSEDDAU

CYMRU A LLOEGR

HYDFEF 2001

Gan y Gwir Anrhydeddus
YR ARGLWYDD USTUS AULD

Llundain : GWASG EI MAWRHYDI

Cyhoeddwyd gyda chaniat' d Adran yr Arglwydd Ganghellor ar
ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi.

© Hawlfraint y Goron 2001

Cedwir pob hawl.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol a'r dyluniad yn eiddo i
The Stationery Office Limited. Dylid cyflwyno ceisiadau am
ailgynhyrchu yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf i Copyright Unit,
Her Majesty's Stationery Office, St Clements House,
2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ.

Cyhoeddwyd gyntaf 2001-10-29
ISBN 011 7025488

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Gwasg Ei Mawrhydi

PENNOD 2

CRYNODEB AC ARGYMHELLION

1. Yn y bennod hon, yr wyf yn crynhoi ac yn gosod allan fy argymhellion. Yn y crynodeb yr wyf yn defnyddio trefn wahanol i drefn prif gorff yr Adroddiad. Yr wyf yn dechrau gyda'r argymhelliad ar gyfer codeiddio ym Mhennod 1 ac yn parhau gyda strwythur y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol a strwythur y llysoedd troseddol, a'u cyfansoddiad, ac yna'r ffordd mae achosion yn mynd yn eu blaen drwyddynt. Ar ôl y crynodeb, yr wyf yn rhestru'r argymhellion yn y drefn y cawsant eu gwneud gan gyfeirio at y paragraffau a'r tudalennau yn y testun y maent yn cyfeirio ato.

Cyflwyniad (Pennod 1 – tudalennau 7-22 – arg 1)

2. Dylai'r gyfraith droseddol gael ei chodeiddio o dan oruchwyliaeth gyffredinol **Cyngor Cyfiawnder Troseddol** newydd a thrwy neu gyda chefnogaeth Comisiwn y Gyfraith yn ôl yr angen. Dylid cael codau troseddau, trefn, tystiolaeth a dedfrydu (**para 35-36, arg 1**). Gweler hefyd: o ran cod trefn droseddol, **Bennod 10 para 271-280, arg 228-234**; o ran cod tystiolaeth griminal, **Bennod 11, para 76-77**; ac o ran cod dedfrydu, **Bennod 11, para 198, a Phennod 12, para 110-111**).

Y System Cyfiawnder Troseddol (Pennod 8 – tudalennau 315-336, arg 121-139)

3. Dylai **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol** cenedlaethol ddisodli'r holl gyrff cynllunio a 'gweithredol' cenedlaethol presennol, gan gynnwys y Grŵp Cynllunio Strategol, a'r Grŵp Materion Treialon. Dylai'r Bwrdd newydd fod yn ddull i'r adrannau a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol ddarparu cyfarwyddyd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol (**para 37-66, arg 121-122**). Dylai gael

cadeirydd annibynnol a chynnwys cynrychiolwyr uwch adrannau a phrif weithredwyr y prif asiantaethau cyfiawnder troseddol (gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid) a nifer fach o aelodau anweithredol (**para 67-72, arg 123-125**). Ar lefel leol, dylai'r **Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol** fod yn gyfrifol am roi grym i gyfarwyddiadau ac amcanion y Bwrdd cenedlaethol ac am reoli'r system cyfiawnder troseddol yn eu hardaloedd. Dylai'r Byrddau cenedlaethol a lleol gael eu cefnogi gan adran ysgrifenyddol yn cael ei rheoli'n ganolog a dylai ymgynghori'n rheolaidd â'r farnwriaeth (**para 73-77, arg 126-129**). Dylai'r Bwrdd cenedlaethol fod yn gyfrifol am gyflwyno system dechnoleg integredig ar gyfer yr holl system cyfiawnder troseddol yn seiliedig ar iaith gyffredin a ffeiliau achos electronig cyffredin, a dylai gweithredu a chynnal y system honno fod yn un o dasgau **Asiantaeth Rheoli Achosion Troseddol** sy'n atebol i'r Bwrdd. (**para 92-114, arg 137-139**).

4. Dylai **Cyngor Cyfiawnder Troseddol**, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Brif Ustus neu Arglwydd-Ustus Apêl uwch, gael ei sefydlu i ddisodli'r cyrff cynghori ac ymgynghori presennol, gan gynnwys y Cyngor Ymgynghorol Cyfiawnder Troseddol a'r Pwyllgorau Strategaeth Ardal. Dylai fod ganddo rym a dyletswydd statudol i arolygu'r system cyfiawnder troseddol, i gynghori'r Llywodraeth am bob diwygiad a fwriedir, i gyflwyno cynigion ar gyfer diwygio ac i ddarparu gorolwg gyffredinol o godeiddio'r gyfraith droseddol. Dylai'r Cyngor gael ei gefnogi gan adran ysgrifenyddol a staff ymchwil gyda'r adnoddau priodol (**para 78-88, arg 130-135**).

Llys Troseddol unedig (Pennod 7 - tudalennau 269-314, arg 83-120)

5. Dylai Llys y Goron a llysoedd ynadon gael eu disodli gan Lys Troseddol unedig yn cynnwys tair Adran: Adran y Goron, wedi ei chyfansoddi fel mae Llys y Goron ar hyn o bryd, i ymarfer awdurdodaeth dros bob materion ditiadwy yn unig a'r troseddau 'naill-ffordd' mwy difrifol sy'n cael eu trosglwyddo iddi; yr Adran Ranbarthol, sy'n cynnwys barnwr, a hwnnw fel rheol yn Farnwr Rhanbarth neu'n Gofiadur, ac o leiaf ddau ynad, i ymarfer awdurdodaeth dros ystod ganolog o faterion 'naill-ffordd' sy'n ddigon difrifol i haeddu hyd at ddwy flynedd o garchar; a'r Adran Ynadon, i gynnwys Barnwr Rhanbarth neu ynadon, fel sydd mewn llysoedd ynadon nawr, i ymarfer eu hawdurdodaeth bresennol dros yr holl faterion ynadol a'r achosion 'naill-ffordd' llai difrifol sy'n cael eu trosglwyddo iddynt (**para 2-35, arg 83-87**). Byddai'r llysoedd, hynny yw, rhai'r Adran Ynadon, yn trosglwyddo'r holl achosion 'naill-ffordd' yn ôl difrifoldeb y trosedd a honnir ac amgylchiadau'r diffynnydd, gan edrych ar ganlyniad posibl yr achos yn ei fan gwaethaf o safbwynt y diffynnydd, a chan gadw mewn cof awdurdodaeth pob adran. Pe byddai anghydfod am leoliad, byddai Barnwr Rhanbarth yn penderfynu'r mater ar ôl gwrandio sylwadau gan yr erlyniad a'r diffynnydd. Ni fyddai gan y diffynnydd unrhyw hawl i ddewis sefyll ei brawf mewn unrhyw adran (**para 36-40, arg 88-95**). (Pe bai'r strwythur llysoedd presennol yn parhau, dylai'r diffynnydd golli ei hawl bresennol i ddewis sefyll ei brawf gerbron rheithgor mewn achosion 'naill-ffordd'; gweler paragraff 10 isod.)

6. P'un a gaiff Llys y Goron a'r llysoedd ynadon eu disodli gan Lys Troseddol unedig neu beidio, dylid cael un asiantaeth weithredol yn cael ei hariannu'n ganolog fel rhan o Adran yr Arglwydd Ganghellor i fod yn gyfrifol am weinyddu'r holl lysoedd, y rhai sifil, troseddol a llysoedd teulu (ac eithrio Pwyllgor Apeliadol Tŵ'r Arglwyddi), gan ddisodli'r Gwasanaeth Llysoedd presennol a'r Pwyllgorau Llysoedd Ynadon. Hyd y gellir gweld yn y dyfodol, dylai ffiniau cylchdeithiau a gweinyddiaethau barhau'n fras fel y maent, a dylai'r llysoedd gael eu rheoli'n lleol o fewn y cylchdeithiau a'r 42 o ardaloedd cyfiawnder troseddol (**para 41-73, arg 96-103**). Dylai clercod ynadon a chynghorwyr cyfreithiol sy'n gyfrifol iddynt barhau i fod yn gyfrifol am y cyngor cyfreithiol a ddarperir i ynadon (**para 74, arg 104**) gweler hefyd **Bennod 4 – Ynadon para 50-58, arg 6-7**).

Ynadon (Pennod 4 - tudalennau 94-134, arg 2-15)

7. Dylai Ynadon a Barnwyr Rhanbarth barhau i ymarfer eu hawdurdodaeth ynadol fel sydd wedi ei sefydlu, a dylid parhau i rannu'r gwaith rhyngddynt fel ar hyn o bryd (**para 1-49, recs 2-5**). Os caiff fy argymhelliad i sefydlu Llys Troseddol unedig newydd gydag Adran Ranbarthol, dylent hefyd eistedd gyda'i gilydd yn y rhanbarth hwnnw gan ymarfer ei awdurdodaeth uwch. Nid wyf yn argymhell unrhyw estyniad pellach o awdurdodaeth rheoli achosion clercod ynadon (**para 50-58, arg 7**). Dylid cymryd camau i ddarparu meinciau ynadon sy'n adlewyrchu'n ehangach y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu (**para 59-86, arg 8-9**). Er mwyn atgyfnerthu hyfforddiant ynadon, dylai'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol gael eu gwneud yn gyfrifol am ddyfeisio a sicrhau cynnwys a dull eu hyfforddiant, a dylent gael adnoddau digonol ar gyfer hynny (**para 91-100, arg 11-15**).

Rheithgorau (Pennod 5 - tudalennau 135-225, arg 16-60)

8. Dylai rheithwyr gynrychioli'n ehangach y cymunedau cenedlaethol a lleol y maent yn dod ohonynt. Dylai cymhwyster ar gyfer gwasanaeth rheithgor barhau'r un fath ac eithrio bod hawl i fod ar restr etholiadol, yn hytrach na'r rhestr etholiadol mewn gwirionedd, yn faen prawf. Dylai rheithwyr posibl gael eu henwi o gyfuniad o nifer o gofrestri a rhestrau cyhoeddus (**para 21-24, arg 17-18**). Er y dylai pobl ag euogfarnau troseddol a nam meddyliol barhau i fod yn anghymwys i wasanaethu, ni ddylai unrhyw un yn y dyfodol fod yn anghymwys i wneud hynny neu gael ei esgusodi rhag gwneud hynny fel hawl. Dylai unrhyw anallu i wasanaethu a hawlir fod yn fater o ohirio neu esgusodi ewyllysiol (**para 27-40, arg 20-24**). Dylid gwneud darpariaeth i alluogi cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar reithgorau lle mae hil yn debygol o fod yn berthnasol i fater pwysig yn yr achos (**para 52-62 arg 25**).
9. Ni ddylai'r gyfraith gael ei diwygio i ganiatáu ymchwilio mwy ymwithiol nag sydd eisoes yn bosibl i'r ffordd mae rheithgorau'n gweithio, er y dylai fod gan

farnwyr llysoedd treial a/neu'r Llys Apêl mewn achosion priodol hawl i archwilio amhriodoldeb a honnir yn yr ystafell reithgor (**para 76-98, arg 26-29**). Dylid datgan y gyfraith, drwy statud os bydd angen, nad oes gan reithgorau hawl i ryddhau diffynnydd drwy herio'r gyfraith neu anwybyddu'r dystiolaeth (**para 99-107 arg 30**).

10. Ni ddylai'r diffynnydd mwyach gael hawl i ddewis treial gan farnwr a rheithgor mewn achosion 'naill-ffordd'. Dylai gwneud hynny fod yn gyfrifoldeb y llys ynadon yn unig, a chan Farnwr Rhanbarth lle bydd amheuaeth ynglŵn â'r lleoliad. Dylai'r drefn ar gyfer traddodi i dreial ac i ddedfrydu mewn achosion 'naill-ffordd' gael ei dileu. Yn ôl fy argymhelliad am Lys Troseddol unedig gyda thair adran, byddai materion sy'n rhy ddifrifol ar gyfer yr Adran Ynadon yn mynd yn uniongyrchol naill ai at yr Adran Ranbarthol neu at Adran y Goron yn ôl eu difrifoldeb. Yn y cyfamser, dylai achosion 'naill-ffordd' ar gyfer Llys y Goron gael eu "hanfon" yno yn yr un ffordd ag achosion ditiadwy yn unig (**para 119-172, arg 32-36**). Dylai treial gan farnwr a rheithgor barhau'n brif ffurf ar dreial ar gyfer y troseddau mwy difrifol sydd i gael eu profi ar ddiad, hynny yw, y rheiny a fyddai'n mynd i Adran y Goron, ond gyda phedwar eithriad. Yn gyntaf, dylai fod gan ddiffynnyddion yn Llys y Goron, neu os caiff fy argymhelliad ar gyfer Llys unedig gyda thair adran ei derbyn, yn Adran y Goron a'r Adran Ranbarthol, hawl gyda chaniatâd y llys i ddewis treial gan farnwr yn unig (**para 110-118, arg 31**). Yn ail, mewn achosion difrifol a chymhleth o dwyll, dylai fod gan y barnwr treial sydd wedi ei enwebu y grym i gyfarwyddo treial ganddo ef ei hun a dau aelod lleig o blith panel wedi ei sefydlu gan yr Arglwydd Ganghellor at y diben (neu os bydd y diffynnydd yn gwneud cais, ganddo ef yn unig) (**para 173-206, arg 37-47**). Yn drydydd, dylai llys ieuenctid wedi ei gyfansoddi gan farnwr o lefel briodol ac o leiaf ddau ynad panel ieuenctid profiadol, gael awdurdodaeth i wrando pob achos difrifol yn erbyn diffynnyddion ifanc oni fydd y cyhuddiadau wedi eu cysylltu'n ddiamheuol ag achosion yn erbyn oedolion (**para 207-211, arg 48-50**). Yn bedwerydd, dylid cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol cael barnwr, nid rheithgor, i benderfynu mater ffitrwydd i bledio. (**para 212-213, arg 51**).

Y Farnwriaeth (Pennod 6 - tudalennau 226-268, arg 61-82)

11. Dylai hierarchaeth bresennol barnwyr a'u hawdurdodaethau barhau, yn amodol ar fy argymhellion ar gyfer sefydlu Adran Ranbarthol o Lys Troseddol unedig newydd ac ymestyn pwerau Barnwyr Rhanbarth ac ynadon wrth eistedd ynddo (**para 1-18**). Dylai systemau rheolaeth farnwrol a defnyddio staff gael eu hatgyfnerthu a hefyd gael eu gwneud yn fwy hyblyg i alluogi cymathu lawer yn well Farnwyr yr Uchel Lys a Barnwyr Cylchdaith yn ôl achosion troseddol, gan roi sylw priodol hefyd i'r trefniadau ar gyfer cyfiawnder sifil a chyfiawnder teulu. Yn arbennig, dylid cael symudiad sylweddol o waith trwm oddi wrth Farnwyr yr Uchel Lys i'r Fainc Gylchdaith ynghyd â mwy o hyblygrwydd yn y system ar gyfer dosbarthu gwaith rhyngddynt. Ac eithrio yn achos Barnwyr Llywyddol Cylchdaith, dylai'r patrwm cylchdeithio anhyblyg presennol o Farnwyr yr Uchel

Lys gael ei ddisodli gan system lle byddant yn teithio allan i wrando dim ond yr achosion mwyaf difrifol (**para 19-56, arg 63-70**). Wrth weithredu'r argymhellion yn ddiweddar am ddiwygio'r system o benodi barnwyr, dylai Adran yr Arglwydd Ganghellor fod yn ofalus i ddileu unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol, brysio ymlaen i sefydlu ymarferion asesu yn lle cyfweiliadau byr, a sefydlu a chyhoeddi polisi clir ar gyfer penodi pobl anabl i swyddi barnwrol (**para 65-88, arg 76-78**). Dylid cryfhau'r hyfforddiant a ddarperir i farnwyr, gan ehangu'n briodol swyddogaeth y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol at y diben (**para 89-97, arg 79**). Dylid cael system o arfarnu pob barnwr rhan-amser, a dylid ystyried arfarnu barnwyr amser-llawn (**para 98-104, arg 80-82**).

Dadgrimaleiddio a dewisiadau eraill yn lle treial confensiynol (Pennod 9 - tudalennau 367-394, arg 140-151)

12. Ychydig gwmpas na chyfiawnhad a welais dros ddadgrimaleiddio ymddygiad y mae'r Senedd wedi ei wneud yn destun sancsiynau cosbol (**para 1-6**). Fodd bynnag, dylid defnyddio mwy ar system o rybuddion cosb benodol yn amodol ar hawl i herio yn y llys, er enghraifft, am osgoi talu am drwydded deledu a'r darpariaethau presennol ar gyfer troseddau traffig ffyrdd (**para 7-25, arg 140-142**). Nid oes achos eithriadol o gryf dros greu unrhyw lysoedd arbenigol, yn enwedig lysoedd cyffuriau neu drais yn y cartref (**para 26-40**). Dylid ystyried defnyddio'n ehangach 'gerydd' amodol neu 'gerydd-plws' ynghyd â chynlluniau cyfiawnder adferol presennol ac yn y dyfodol, a dylid dyfeisio strategaeth genedlaethol ar gyfer hynny (**para 41-47 a 58-69, arg 143-144 ac 150**). Ar ôl i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gymryd cyfrifoldeb llawn dros oruchwylio'r maes gwasanaethau ariannol, dylid ystyried trosglwyddo tor-cyfraith ariannol a masnachol priodol o'r broses cyfiawnder troseddol i reolaeth rheoleiddio a disgyblu'r Awdurdod. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd yn y maes hwn i gyfuno achosion troseddol ac achosion rheoleiddio sy'n cydreddeg (**para 48-57, arg 145-149**). Dylid gwneud gwaith paratoi gyda'r bwriad o ddileu'r holl orfodi dyledion sifil o lysoedd sydd ag awdurdodaeth droseddol (**para 70-77, arg 151**).

Paratoi ar gyfer treial (Pennod 10 - tudalennau 395-513, arg 152-235)

13. Yr allwedd i baratoi'n well ar gyfer achosion troseddol a'u penderfynu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol yw nodi'r materion dan sylw yn gynnar. Mae pedwar peth yn hanfodol: erlynwyr cryf ac annibynnol; cyfreithwyr amddiffyn effeithlon sy'n cael eu talu'n briodol; mynediad hawdd gan gyfreithwyr amddiffyn i'w cleientiaid sydd mewn cadwraeth; a system gyfathrebu fodern (**para 1-34, arg 152-153**). Dylai pob erlyniad cyhoeddus fod ar ffurf cyhuddiad, wedi ei gyflwyno heb gyfeirio at y llysoedd ond lle byddai gan yr erlynydd y cyfrifoldeb cychwynnol ym mhob achos ar wahân i achosion mân, arferol neu frys. Dylai barhau'n sail i'r achos yn erbyn diffynnydd pa lys bynnag fydd yn delio â'i achos

yn y pen draw, ac felly ddisodli'r cymysgedd presennol o gyhuddiadau, gwysion a ditiadau (**para 35-63, arg 154-170**). Dylai cynllun graddedig o ddisgownt dedfrydau gael ei gyflwyno er mwyn gallu rhoi disgownt uwch am bledio'n euog yn ôl pa mor gynnar y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog. Gyda hyn dylid cael system o arwydd ymlaen llaw o'r ddedfryd i ddiffynnydd sy'n ystyried pledio'n euog (**para 91-114, arg 186-193**).

14. Dylai'r cynllun o ddatgelu gan y naill ochr a'r llall sydd wedi ei sefydlu gan Ddeddf Trefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 barhau, ond gyda'r diwygiadau canlynol: ei fynegi mewn un offeryn wedi ei fynegi'n glir; un prawf syml o berthnasedd ar gyfer y ddau gam wrth ddatgelu gan yr erlyniad; datgelu rhai dogfenau gan yr erlyniad yn awtomatig; symud oddi ar yr heddlu i'r erlynydd unrhyw gyfrifoldeb sydd gan yr heddlu dros nodi'r holl ddefnydd a all fod yn ddefnydd datgelu; ac annog, drwy reolau ymddygiad proffesiynol ac fel arall, ddarparu datganiadau amddiffyniad digonol (**para 115-184, arg 194-205**). Dylid cael cynllun statudol newydd ar gyfer datgelu gan drydydd parti (**para 185-190, arg 206**), ac ar gyfer cyfarwyddo cwnsler annibynnol arbennig gan y llys mewn achosion o imwneidd er mwyn lles y cyhoedd lle bydd y llys yn ystyried ceisiadau'r erlyniad yn absenoldeb y diffynnydd (**para 191-197, arg 207**).
15. Wrth baratoi ar gyfer treial ym mhob llys troseddol, dylid symud i ffwrdd o wrandawiadau ple a chyfarwyddiadau a mathau eraill o wrandawiadau cyn-treial i gydweithredu rhwng y partiön yn ôl amserlenni safonol, lle bynnag y bo'n angenrheidiol, gan geisio cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig gan y llys. Yn Adran y Goron a'r Adran Ranbarthol, a lle bo angen yn yr Adran Ynadon, dylid gwneud 'asesiad cyn-treial' ysgrifenedig neu electronig wedyn gan y llys o barodrwydd y partiön ar gyfer treial. Dim ond os bydd y llys neu'r partiön yn methu datrys yr holl faterion fel hyn y dylid cael gwrandawriad cyn-treial cyn yr asesiad cyn-treial neu ar unrhyw adeg yn ystod y broses honno. Dylai'r llysoedd gael grym cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a rheoliadau ymrwymol naill ai'n ysgrifenedig neu mewn gwrandawiadau cyn-treial (**para 198-234, arg 208-221**). Yn Adran y Goron a'r Adran Ranbarthol, a lle bydd angen yn yr Adran Ynadon, ar ôl yr asesiad cyn-treial ac mewn digon o bryd cyn y gwrandawriad, dylai'r partiön baratoi, ar gyfer cymeradwyaeth y barnwr ac i'w ddefnyddio ganddo ef, hwythau a'r rheithgor yn y gwrandawriad, crynodeb achos a materion ysgrifenedig sy'n gosod allan yn fyr hanfodion y cyhuddiad(au) a'r materion sydd i gael eu penderfynu gan y llys (**para 235; gweler hefyd Bennod 11, para 15-24, arg 235-236**).

Y Treial: trefn a thystiolaeth (Pennod 11 - tudalennau 514-610, arg 236-300)

16. Mewn treialon gan farnwr a rheithgor, dylai'r barnwr, drwy gyfeirio at y crynodeb achos a materion, a chopïau o hwnnw i gael eu darparu i'r rheithgor, roi iddynt gyflwyniad llawnach i'r achos nag sy'n arferol ar hyn o bryd (**para 14-24, arg 235-236**). Dylai'r treial yn fras fod ar yr un ffurf ag ar hyn o bryd, ond gan ddefnyddio mwy o gymhorthau electronig mewn achosion priodol. Dylai'r barnwr grynhoi a chyfarwyddo'r rheithgor, gan gyfeirio fel sy'n briodol at y crynodeb

achos a materion. Cyn belled ag y bydd yn bosibl, dylai 'hidlo' y gyfraith a llunio cwestiynau ffeithiol yn ôl y materion a'r gyfraith fel y mae'n gyfarwydd â hi. Lle bydd yn ystyried bod hynny'n briodol, dylai ei gwneud yn ofynnol i'r rheithgor yn gyhoeddus ateb pob un o'r cwestiynau a chyhoeddi dedfryd yn unol â'r atebion hynny (**para 25-55, arg 237-250**).

17. Mewn treialon gan farnwr ac ynadon yn yr Adran Ranbarthol, y barnwr yn unig ddylai farnu'r gyfraith, ond dylai ef a'r ynadon gyda'i gilydd farnu ffeithiau, a phob un ohonynt â phleidlais gyfartal. Byddai trefn yr achos yn fras yr un fath ag yn Adran y Goron. Dylai'r barnwr benderfynu materion cyfraith, trefn a thystiolaeth na ellir ei derbyn yn absenoldeb yr ynadon lle gallai fod yn annheg i'r diffynnydd i wneud hynny yn eu presenoldeb. Ni ddylai'r barnwr grynhoi'r achos i'r ynadon, ond dylai ymneilltuo gyda nhw i ystyried penderfyniad y llys, a byddai yntau'n rhoi'r penderfyniad ac yn ei resymu'n gyhoeddus fel barn y llys. Y barnwr yn unig ddylai fod yn gyfrifol am ddedfrydu (**para 57-61, arg 251**).
18. Dylid cael arolwg cynhwysfawr o gyfraith tystiolaeth droseddol i nodi a sefydlu egwyddorion holl-gynhwysol a chydlynol a'i gwneud yn gyfrwng effeithlon a syml i sicrhau cyfiawnder. O gael arolwg felly, yr wyf yn ystyried y dylai'r gyfraith yn gyffredinol symud i ffwrdd oddi wrth reolau technegol yr hyn y gellir ei dderbyn i roi hyder mewn pobl farnwrol a phobl leyg sy'n darganfod ffeithiau er mwyn rhoi i dystiolaeth berthnasol y pwysau y mae'n eu haeddu. Yn arbennig, dylid ystyried diwygio'r rheolau o ran atgoffa, defnyddio datganiadau tystion, achlust, tystiolaeth annheg, camymddwyn blaenorol gan y diffynnydd, tystiolaeth ffeithiau tebyg a thystiolaeth plant (**para 76-128, arg 254-261**). Dylid sicrhau diwygiadau i atgyfnerthu ansawdd a gwrthrychedd tystiolaeth arbenigol ac i wella'r ffordd o'i chyflwyno o safbwynt y llys a'r arbenigwyr, gan ddilyn mewn rhai agweddau ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud yn y cylch sifil gan y Rheolau Trefn Sifil (**para 129-151, arg 262-275**). Dylid cymryd camau ar frys i gynyddu nifer ac atgyfnerthu ansawdd cyfieithwyr sy'n gwasanaethu'r llysoedd troseddol ac i wella'u hamodau gwaith (**para 155-162, arg 276-286**). Mae nifer o ffyrdd y dylai neu y gallai'r cyfleusterau a'r drefn yn y llys gael eu moderneiddio a gwasanaethu'r cyhoedd yn well (**para 163-196, arg 287-295**). Dylai'r llysoedd troseddol gael system wybo-daeth ar-lein ar gyfer dedfrydu (**para 200-211, arg 296-299**).

Apelau (Pennod 12 - tudalennau 611-658, arg 301-328)

19. Dylid cael yr un profion ar gyfer apelio yn erbyn dyfarniad a dedfryd yn y drefn honno ar bob lefel mewn apêl, sef y rheiny sy'n gymwys ar gyfer apêl i'r Llys Apêl (**para 5-13, a 45-46, arg 300-301**). Dylid cael un llinell apelio o'r Adran Ynadon (Llysoedd Ynadon) ac uwch i'r Llys Apêl ym mhob mater troseddol. Byddai hyn yn golygu: 1) dileu apêl o lysoedd ynadon i Lys y Goron drwy gyfrwng ail wrandawriad a disodli hynny gan apêl i Adran y Goron (sy'n cynnwys barnwr yn unig); a 2) dileu apêl o lysoedd ynadon a/neu Lys y Goron i'r Uchel Lys drwy gyfrwng achos wedi ei fynegi neu hawlio arolwg barnwrol, a disodli'r rheiny gan apêl i'r Llys Apêl o dan ei awdurdodaeth apelio gyffredinol wedi ei hymestyn os bydd angen ac i'r graddau y bydd angen (**para 14-44, arg 302-307**).

20. Yr wyf yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol argymhellion Comisiwn y Gyfraith i gyflwyno eithriadau statudol yn y rheol perygl dwbl, ac eithrio na ddylai hawl erlynydd i apelio yn erbyn rhyddhau gael ei gyfyngu i achosion o lofruddio a throseddau cysylltiedig, ond dylai gynnwys troseddau difrifol eraill y gellir eu cosbi â charchar am oes neu am gyfnodau hir (**para 47-65, arg 308-309**). Dylid cael darpariaeth i'r amddiffyniad neu'r erlyniad allu apelio yn erbyn dyfarniad arbennig gan reithgor sy'n wrthnysig yn ôl ei delerau ei hun; gweler para 16 uchod (**para 66-67, arg 310**).
21. Dylai'r Llys Apêl gael ei ailgyfansoddi a dylai ei drefn gael ei gwella i'w alluogi i ddelio'n fwy effeithlon ag apelau sy'n ymwneud â materion o bwys i'r cyhoedd neu sy'n arbennig o gymhleth ar y naill law, neu ag apelau 'syml' ar y llaw arall (**para 73-101, arg 311-321**). Dylai'r gyfraith gael ei diwygio i ehangu cylch gwaith y Panel Ymgynghorol Dedfrydu i gynnwys egwyddorion cyffredinol dedfrydu, beth bynnag fo categori'r trosedd; ac i alluogi'r Llys Apêl i gyhoeddi canllawiau heb orfod eu clymu wrth apêl benodol sydd ger ei fron (**para 108-111, arg 324-325**).

ARGYMHELLION

PENNOD UN CYFLWYNIAD

Codeiddio (*para 35 – 36, tudalennau 20 - 22*)

1. Dylai Cod cyfraith droseddol gael ei gynhyrchu a'i gynnal mewn pedair rhan:
 - troseddau troseddol;
 - trefn droseddol;
 - tystiolaeth droseddol; a
 - dedfrydu.

PENNOD PEDWAR YNADON

Cyflwyniad (*para 1 – 14, tudalennau 94 - 99*)

2. Dylai Ynadon a Barnwyr Rhanbarth barhau i ymarfer awdurdodaeth ddiannod.

Patrymau gweithio presennol (*para 18, tudalennau 100-101*)

3. Er y dylai ynadon barhau i gael eu penodi i un ardal comisiwn, dylid cael mecanwaith hwylus i'w galluogi, pan fydd angen, i eistedd mewn ardaloedd cyfagos.

Cwmpas awdurdodaeth ddiannod (*para 20, tudalennau 101 - 102*)

4. Ni ddylid cael newid cyffredinol yn lefel awdurdodaeth ddiannod Barnwyr Rhanbarth neu ynadon fel y caiff ei diffinio ar hyn o bryd, er y gall fod angen arolygu'r mater yng ngoleuni argymhellion Halliday i gyflwyno fframwaith dedfrydu newydd, gan gynnwys gorchmynion dedfrydu cadwraethol a chymunedol ar y cyd.

Defnyddio staff a dosbarthu gwaith (*para 21 – 49, tudalennau 102 - 114*)

5. Wrth ymarfer eu hawdurdodaeth ynadol:
 - 5.1 Ni ddylai Barnwyr Rhanbarth ac ynadon eistedd yn rheolaidd fel tribiwnlysoedd cymysg i ddelio ag amrywiaeth gyffredinol neu unrhyw fath penodol o achos neu ffurf ar achos, er y gall bod manteision hyfforddiant a manteision ‘diwylliannol’ lleol o wneud hynny o bryd i’w gilydd yn ôl pryd y byddant ar gael a’u llwythi gwaith;
 - 5.2 yn amodol ar lwythi gwaith sy’n newid oherwydd gweithredu unrhyw rai o’r hargymhellion neu fel arall, ni ddylid gweld newid sylweddol yng nghydbwysedd nifer y Barnwyr Rhanbarth a’r ynadon, nac ym maint cymharol neu natur gwaith ynadol sy’n cael ei ddsbarthu i’r naill a’r llall; a
 - 5.3 dylai gwaith ynadol barhau i gael ei ddsbarthu rhwng Barnwyr Dosbarth ac ynadon yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Lleoliadau, sef y dylai’r naill a’r llall, fel rheol yn eistedd ar wahân, fod ar gael i ddelio â’r holl ystod, ond y dylai Barnwyr Rhanbarth ganolbwyntio ar ddsbarthu a rheoli achosion, achosion sy’n gymhleth yn gyfreithiol neu’n ffeithiol, achosion o flaenoriaeth, fel y rheiny sy’n ymwneud â throsedd-dwyr ifanc neu droseddau o natur rywiol, ac achosion maith.

Clercod Ynadon (*para 50 – 58, tudalennau 114 - 119*)

6. Dylai Barnwyr Rhanbarth fel rheol eistedd heb gynghorydd cyfreithiol.
7. Ni ddylid ymestyn awdurdodaeth rheoli achosion clercod ynadon.

Cyfansoddiad y fainc

Dewis a phenodi ynadon (para 80 – 86, tudalennau 126 - 129)

8. Dylid cymryd camau i ddarparu meinciau o ynadon sy’n adlewyrchu’n helaethach nag ar hyn o bryd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu:
 - 8.1 drwy arolygu eu nifer, eu swyddogaeth a’r gefnogaeth a roddir iddynt, gan gynnwys, os caiff Llys Troseddol unedig ei sefydlu, y ffordd bresennol o rannu cyfrifoldeb drostynt rhwng Adran yr Arglwydd Ganghellor a Dugaeth Lancaster;
 - 8.2 drwy drosglwyddo cyfrifoldeb dros benderfynu nifer yr ynadon sy’n angenrheidiol ar gyfer pob ardal gomisiwn o Bwyllgorau Cyngori lleol i staff llysoedd drwy ymgynghori â chadeirydd pob mainc, clercod yr ynadon, ac os caiff Llys Troseddol unedig ei sefydlu, y Barnwr Preswyl hefyd;
 - 8.3 drwy arolygu cysylltiadau cymunedol a mentrau addysgol meinciau gyda’r bwriad o roi gwell gwybodaeth i’r cyhoedd am eu gwaith a denu ymgeiswyr mwy addas i’w penodi;

- 8.4 er mwyn cefnogi'r Pwyllgorau Cynghori lleol, drwy sefydlu Strategaeth Recriwtio Genedlaethol gyda'r adnoddau priodol sy'n anelu nid yn unig at ymgeiswyr i fod yn ynadon, ond hefyd at eu cyflogwyr;
 - 8.5 drwy ddarparu i Bwyllgorau Cynghori lleol y wybodaeth i'w galluogi i gyflwyno, i gael eu hystyried ar gyfer eu penodi, ymgeiswyr a fydd yn rhoi ac yn cynnal meinciau sy'n adlewyrchu'n fras y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys sefydlu a chynnal cronfeydd data cenedlaethol a lleol o wybodaeth am gyfansoddiad y gymuned leol ac am gyfansoddiad yr ynadaeth leol;
 - 8.6 drwy sefydlu arolwg o'r ffyrdd y gallai swyddogaeth a thelerau gwasanaeth ynadon gael eu gwneud yn fwy deniadol a hawdd eu rheoli i ystod ehangach o'r gymuned nag ar hyn o bryd; a
 - 8.7 thrwy barhau gyda'r gwaith chwilio cyfredol am grwpiau galwedigaethol a/neu gymdeithasol fel dewis yn lle cysylltiadau gwleidyddol fel mesur o gydbwysedd lleol.
9. Dylai'r Arglwydd Ganghellor barhau ei bolisi presennol – ond gan ddal i'w arolygu'n ofalus – o beidio â phenodi fel rheol bersonau penodol sy'n agos at y system cyfiawnder troseddol neu sy'n methu, oherwydd natur eu galwedigaeth, ymrwymo eu hunain i eistedd yn rheolaidd, neu bobl y byddai eu cymeriad neu eu cysylltiad yn eu gwneud yn anaddas i gael eu penodi.

Barnwyr Rhanbarth (para 87 – 90, tudalennau 129 - 131)

- 10. Dylai'r Arglwydd Ganghellor fod yn fwy parod i gymryd yr arweiniad i aseinio Barnwr Rhanbarth mewn ardal lle mae o'r farn, ar ôl ymgynghori fel sy'n briodol, fod cyfiawnder lleol yn yr ardal yn gwneud hynny'n ofynnol.

Hyfforddiant (para 91 – 100, tudalennau 131 - 134)

- 11. Dylid gwneud y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn gyfrifol am ddyfeisio a sicrhau cynnwys a dull hyfforddiant yr holl ynadon, gan ddarparu adnoddau digonol i'r bwrdd.
- 12. Dylai hyfforddiant felly gael ei ddarparu'n bennaf ar lefel leol drwy gyfrwng hyfforddwyr, sef clercod ynadon a/neu gynghorwyr cyfreithiol yn ddelfrydol, sydd wedi eu hyfforddi'n briodol at y diben gan y Bwrdd.
- 13. Dylai Barnwyr Rhanbarth hefyd gymryd rhan yn hyfforddiant ynadon yn yr ardal neu yng nghanolfan y llys lle maent fel rheol yn gweithio.
- 14. Dylai'r cynllun Menter Hyfforddiant Cenedlaethol Ynadon gael ei loywi er mwyn darparu set lai cymhleth o gymwysterau ar gyfer ynadon a'r rheiny wedi eu pwysoli ac yn cael eu cefnogi gan safonau cenedlaethol clir.
- 15. Dylai'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol sefydlu systemau i sicrhau bod arfarnu ynadon yn digwydd mewn ffordd amserol ac effeithiol ar hyd a lled y wlad, a bod rhaglenni hyfforddiant yn cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddi sy'n cael eu nodi yn ystod y broses honno.

Cyfansoddiad y rheithgor*Maint y rheithgor (para 17 – 20, tudalennau 142 - 143)*

16. Dylid cyflwyno system i alluogi barnwyr mewn achosion maith, lle maent yn ystyried bod hynny'n briodol, i dyngu rheithwyr gwahanol neu reithwyr wrth gefn ar gyfer amgylchiad pan all rheithgor fel arall gael ei leihau o ran nifer drwy ryddhau oherwydd salwch neu unrhyw reswm angenrheidiol arall.

Cymhwyster ar gyfer gwasanaeth rheithgor (para 21 – 24, tudalennau 143 - 145)

17. Ni ddylid cael newid yn y meini prawf statudol presennol ar gyfer cymhwyster ar gyfer gwasanaeth rheithgor, heblaw o ran cofrestru, yn wahanol i fod â hawl i gofrestru, ar restr etholiadol.
18. Dylid diwygio'r gyfraith i osod, yn lle'r amod o gofrestru ar gofrestr etholiadol, gynnwys ar gofrestr felly a/neu ar unrhyw un neu ragor o nifer o restrau neu gyfeirlyfrau penodol eraill sy'n cael eu cynnal yn gyhoeddus, ond heb gynnwys unrhyw un wedi ei restru y gwelir ei fod, wrth ymchwilio adeg gwysio, heb hawl i gael ei gofrestru'n etholwr.

Gorfodi gwasanaeth rheithgor (para 25 – 26, tudalennau 145 - 146)

19. Dylid gorfodi'r rhwymedigaeth i gyflawni gwasanaeth rheithgor, pan fydd hynny'n angenrheidiol, mewn ffordd rymus sy'n cael digon o gyhoeddusrwydd, a dylid ystyried gwneud hynny drwy gyfrwng system o gosbau penodedig ond gyda hawl i apelio at yr ynadon.

Anghymhwyster (para 27 – 34, tudalennau 146 -149)

20. Dylai pawb fod yn gymwys i wneud gwasanaeth rheithgor, heblaw am bobl â salwch meddwl, a dylai'r gyfraith gael ei diwygio'n unol â hynny.
21. Ni ddylid cael unrhyw newid yng nghategoriau'r rheiny sy'n anghymwys i gyflawni gwasanaeth rheithgor.

Esgusodi fel hawl ac esgusodi ewyllysiol (para 35 – 40, tudalennau 149 152)

22. Ac eithrio'r rheiny sydd wedi cyflawni gwasanaeth rheithgor yn ddiweddar, neu sydd wedi eu hesgusodi gan lys rhag gwneud hynny, ni ddylid esgusodi unrhyw un rhag cyflawni gwasanaeth rheithgor fel hawl, dim ond drwy ddan-gos rheswm da dros ei esgusodi.
23. Dylai'r Swyddfa Wysio Ganolog neu'r llys, wrth archwilio hawliad am esgusodi ewyllysiol, ystyried ei rym gohirio yn y lle cyntaf.
24. Dylai'r Swyddfa drin pob cais wedyn am ohirio a'r holl geisiadau am esgusodi yn erbyn meini prawf clir sy'n cael eu nodi yn y wŷs rheithgor.

Dewis ar hap

Cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar reithgorau (para 52 – 62, tudalennau 156 - 159)

25. Dylid dyfeisio cynllun, ar hyd y llinellau yr wyf wedi eu hamlinellu ym Mhennod 5, paragraffau 60 a 61, ar gyfer achosion lle mae'r llys yn ystyried bod hil yn debygol o fod yn berthnasol i bwnc sy'n bwysig yn yr achos, ar gyfer dewis rheithgor sy'n cynnwys, dyweder, hyd at dri pherson o unrhyw grŵp lleiafrifol ethnig.

Rheithfarnau

Ymchwil rheithgor (para 76 – 87, tudalennau 164 - 168)

26. Ni ddylid cael unrhyw ddiwygiad yn adran 8 o Ddeddf Dirmygu'r Llys 1981 i alluogi ymchwilio i drafodaethau rheithgorau unigol.
27. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddefnydd ymchwilio sydd eisoes ar gael yn y maes cyfraith gwlad am dreial gan reithgor mewn achosion troseddol, gyda'r bwriad o nodi ac ymateb yn briodol i'r holl wybodaeth sydd ar gael am y ffordd mae rheithgorau'n llunio'u rheithfarnau.
28. Os yw'r defnydd ymchwil felly'n annigonol ac i'r graddau y mae'n annigonol, dylid ystyried ymchwil rheithgor o natur gyffredinol nad yw'n troseddu yn erbyn Deddf 1981.

Y rheithfarn heb resymu (para 88 – 98, tudalennau 168 - 173)

29. Dylai adran 8 o Ddeddf Dirmygu'r Llys 1981 gael ei diwygio i ganiatáu, lle mae hynny'n briodol, ymchwilio gan farnwr y treial a/neu'r Llys Apêl (Adran Droseddol) i amhriodoldeb a honnir gan reithgor, boed yn ystod ei drafo-daethau neu fel arall.

Rheithfarnau gwrthnysig (para 99 – 108, tudalennau 173 - 176)

30. Dylid datgan y gyfraith, drwy gyfrwng statud os bydd angen, nad oes gan reithgorau hawl i ryddhau diffynyddion gan herio'r gyfraith neu gan anwybyddu'r dystiolaeth, ac y dylai barnwyr ac adfocadau gynnal achosion troseddol yn unol â hynny.

Rhoi achosion ar brawf drwy ddiad heb reithgor

Dewis diffynydd i sefyll ei brawf gerbron barnwr yn unig (para 110 – 118, tudalennau 177 - 181)

31. Dylai diffynyddion, gyda chaniatâd y llys, ar ôl gwrandao sylwadau gan y naill ochr a'r llall allu dewis sefyll eu prawf gerbron barnwr yn unig ym mhob achos sy'n cael ei wrando ar ddiad (p'un a fydd hynny yn Llys y Goron fel ar hyn

o bryd, neu yn Adran y Goron neu'r Adran Ranbarthol os caiff fy argymhellion ym Mhennod 9 am Lys Troseddol unedig newydd eu mabwysiadu).

'Troseddau naill-ffordd' (para 119 – 172, tudalennau 181 - 199)

32. Mewn achosion 'naill-ffordd', llysoedd ynadon, nid diffynyddion, a ddylai benderfynu'r lleoliad ar ôl cael sylwadau gan y naill ochr a'r llall.
33. Os bydd anghydfod am y mater, dylai Barnwr Rhanbarth benderfynu.
34. Dylai'r amddiffyniad a'r erlyniad gael hawl i apelio ar bapur o unrhyw benderfyniad am ddull y treial lle'r oeddent yn anghytuno at Farnwr Cylchdaith wedi ei enwebu at y diben, a dylid darparu ar gyfer gwrandio apelau felly yn gyflym.
35. Dylid dileu'r drefn o draddodi achosion 'naill-ffordd' i Lys y Goron, a nes i system o ddsbarthu fel rhan o'm hargymhellion ym Mhennod 7 am Lys Troseddol unedig newydd gael ei chyflwyno, dylai achosion felly gael eu "hanfon" i Lys y Goron yn yr un ffordd ag achosion ditiadwy yn unig.
36. Dylid dileu'r drefn o draddodi am ddedrfyd.

Twyll ac achosion cymhleth eraill (para 173 – 206, tudalennau 200 - 214)

37. Fel dewis yn lle treial gerbron barnwr a rheithgor mewn achosion o dwyll difrifol a chymhleth, dylai'r barnwr treial sydd wedi ei enwebu gael y grym i gyfarwyddo treial ganddo ef ei hun gan eistedd gydag aelodau lleyg, neu lle bydd y diffynnydd wedi dewis sefyll ei brawf gerbron barnwr yn unig, ganddo ef ei hun yn unig.
38. Dylai'r categori achosion y gallai cyfarwyddyd felly fod yn gymwys iddynt yn y lle cyntaf fod yn achosion o dwyll difrifol neu gymhleth o fewn adrannau 4 a 7 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1987.
39. Lles cyfiawnder ddylai'r maen prawf holl-bwysig fod wrth gyfarwyddo treial heb reithgor.
40. Dylai'r naill ochr neu'r llall gael hawl i apelio i'r Llys Apêl (Adran Droseddol) yn erbyn penderfyniad felly.
41. Dylai barnwyr sy'n gwrandio achosion felly, beth bynnag fo ffurf y drefn, gael eu henwebu'n arbennig at y diben fel ar hyn o bryd, a chael hyfforddiant trwyadl, strwythuredig a pharhaus ar gyfer hynny.
42. Dylid cael panel o arbenigwyr, wedi ei sefydlu ac yn cael ei gynnal gan yr Arglwydd Ganghellor drwy ymgynghori â chyrff proffesiynol a chyrff eraill, er mwyn dewis aelodau lleyg o'u plith ar gyfer treialon.
43. Dylai'r barnwr a enwebir ar gyfer yr achos ddewis yr aelodau lleyg ar ôl rhoi i'r naill ochr a'r llall gyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig am eu haddasrwydd.
44. Dylai aelodau lleyg gael eu talu'n briodol am eu gwasanaeth.
45. Mewn llys sy'n cynnwys barnwr ac aelodau lleyg, y barnwr ddylai fod yn unig farnwr y gyfraith, trefn, tystiolaeth sy'n dderbyniol ac o ran dedrfyd; o ran dyfarnu'n euog, dylai'r tri ohonynt farnu ffeithiau.

46. Dylai penderfyniad llys wedi'i gyfansoddi felly fod yn unfryd lle bynnag y bydd yn bosibl, ond gallai mwyafrif o unrhyw ddau fod yn ddigon ar gyfer euogfarn.
47. Dylai'r barnwr roi penderfyniad y llys drwy gyfrwng dyfarniad cyhoeddus wedi ei resymu'n llawn.

Diffynyddion ifanc (*para 207 – 211, tudalennau 214 - 217*)

48. Dylai pob achos sy'n cynnwys diffynyddion ifanc sydd ar hyn o bryd yn cael eu traddodi i Lys y Goron i sefyll eu prawf neu i gael eu dedfrydu yn y dyfodol gael eu rhoi gerbron llys ieuenctid sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, Farnwr Uchel Lys, Barnwr Cylchdaith neu gofiadur yn eistedd gydag o leiaf ddau ynad profiadol, gan ymarfer awdurdodaeth lawn Llys y Goron ar hyn o bryd i'r diben hwnnw.
49. Yr unig eithriad posibl i hyn ddylai fod yr achosion hynny lle mae'r diffynydd ifanc wedi ei gyhuddo ar y cyd ag oedolyn, a lle ystyrir bod angen iddynt sefyll eu prawf gyda'i gilydd er lles cyfiawnder.
50. Dylai fod gan y llys ieuenctid wedi ei gyfansoddi felly, ac eithrio lle mae'n ystyried bod lles y cyhoedd yn mynnu i'r gwrthwyneb, hawl i wrando achosion felly yn breifat, fel yn y llys ieuenctid wrth ymarfer ei awdurdodaeth bresennol.

Ffitrwydd i bledio (*para 212 – 213, tudalennau 217 - 218*)

51. Dylid cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i farnwr, nid rheithgor, benderfynu mater ffitrwydd i bledio.

Gwybodaeth ar gyfer rheithwyr a thriniaeth rheithwyr

Gwybodaeth (*para 217 – 220, tudalennau 219 - 221*)

52. Dylai'r rhannau hanfodol mewn gwŷs rheithgor a dogfennau esboniadol a gyhoeddir gan y Swyddfa Wysio Ganolog gael eu mynegi mewn nifer o ieithoedd, ac yn gyffredinol dylai'r dogfennau roi mwy o wybodaeth a chael eu mynegi mewn arddull fwy anffurfiol a chyfeillgar nag ar hyn o bryd.
53. Dylai'r Gwasanaeth Llysoedd adolygu digonolrwydd y wybodaeth y mae llysoedd yn ei darparu i reithwyr posibl yn erbyn y rhai gorau a ddarperir gan awdurdodaethau eraill.

Hyd ac amllder gwasanaeth (*para 221 – 224, tudalennau 221 - 223*)

54. Dylid gwneud arolwg ar frys o'r peirianwaith, sef y peirianwaith rhwng y Swyddfa Wysio Ganolog a'r llysoedd, ar gyfer gwysio rheithwyr y gellir gofyn iddynt wasanaethu mewn achos maith.
55. Dylid archwilio neu brofi dewisiadau ar gyfer byrhau hyd gwasanaeth rheithgor drwy gyflwyno nod o system un dydd neu un treial, neu amrywiad ar hynny.

56. Dylid ystyried ehangu'r cylch lle bydd yn bosibl hawlio esgusodi oherwydd gwasanaeth rheithgor blaenorol.

Cyfleusterau (para 225, tudalen 223)

57. Dylai'r Gwasanaeth Llysoedd fynd ymlaen â'i raglen bresennol i wella cyfleusterau llys i reithwyr a rheithwyr sy'n disgwyl cael eu galw, gan gynnwys y rheiny sy'n anabl.
58. Fel mater o frys, dylai hefyd gychwyn rhaglen o ddarparu ym mhob llys gyfleusterau gweithio digonol a dulliau eraill i alluogi rheithwyr sy'n disgwyl cael eu galw i allu cynnal eu busnes eu hunain.

Iawndal (para 226, tudalen 224)

59. Dylid adolygu symiau'r lwfansau a delir i reithwyr am fod yn bresennol yn y llys.
60. Dylid ystyried lwfans ychwanegol i gynnwys y gost i reithwyr posibl a allai, heblaw am hynny, gyfiawnhau hawlio eu hesgusodi oherwydd cyfrifoldebau gofal.

PENNOD CHWECH – Y FARNWRIAETH

Yr hierarchaeth farnwrol

Cofiaduron (para 14 – 16, tudalennau 231 - 232)

61. Dylai fod yn un o amodau penodi Cofiadur i eistedd am o leiaf dair wythnos y flwyddyn mewn un bloc parhaus, oni fydd Barnwr Llywyddol am resymau eithriadol yn caniatáu iddo eistedd mewn mwy nag un bloc.
62. Dylai'r Grŵp Barnwrol yn Adran yr Arglwydd Ganghellor, drwy ymgynghori â'r Barnwyr Llywyddol, gysylltu'n agos â'r Gwasanaeth Llysoedd i sicrhau darparu eisteddiad blynyddol o dair wythnos o leiaf ar gyfer pob Cofiadur.

Cymathu barnwyr ag achosion

'Tocynnau' (para 20 – 25, tudalennau 234 - 237)

63. Dylid dileu'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau yn y system 'docynnau' bresennol ac yn lle hynny osod cyfrifoldeb eang ar Farnwyr Preswyl, yn amodol ar oruchwyliaeth gyffredinol y Barnwyr Llywyddol, am ddsbarthu gwaith barnwrol yn eu canolfannau llysoedd, ond ynghyd ag:
- 63.1 arfarniad rheolaidd a systematig i alluogi Barnwyr Preswyl a Barnwyr Llywyddol i benderfynu profiad a diddordebau barnwyr; a
- 63.2 barnwyr i gael hyfforddiant felly gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

fel sy'n ofynnol, fel amod ymlaen llaw ar gyfer gwrando achosion mewn categorïau penodol o waith.

Rhestrau cylchdaith (*para 26 – 43, tudalennau 237 - 243*)

64. Dylid ystyried lleihau'r cyfnodau gwyliau cyfreithiol ffurfiol ar gyfer Barnwyr Uchel Lys sy'n eistedd yn Llys y Goron, yn enwedig i gyfyngu gwyliau'r haf i fis Awst.
65. Dylid gwneud hyn drwy amseru amrywiadau eistedd presennol Mainc yr Uchel Lys, nid drwy eu cynyddu.
66. Dylai'r systemau o benodi a dosbarthu barnwyr gael eu hadolygu gyda'r bwriad o sicrhau system fwy effeithlon nag ar hyn o bryd er mwyn sicrhau dilyniant prydlon wedi ei gynllunio o Farnwyr Preswyl a barnwyr profiadol priodol mewn canolfannau llysoedd, ac i'r diben hwn dylid ymgynghori'n rheolaidd â'r Barnwyr Llywyddol, y Barnwyr Preswyl a'r Gweinyddwyr Cylchdaith.
67. Dylai Adran yr Arglwydd Ganghellor gytuno ar dargedau ar gyfer y Barnwyr Llywyddol a llenwi swyddi gwag ar gyfer Barnwyr Preswyl, Cylchdaith a Rhanbarth ar ôl cael gwybod am swyddi gwag a ddisgwylir neu swyddi gwag gwirioneddol.

Cymathu barnwyr ag achosion yn well (*para 44 – 56, tudalennau 243 - 249*)

68. Dylid cael symud ffurfiol a sylweddol yn y cydbwysedd o waith cylchdaith trwm oddi ar ysgwyddau Barnwyr Uchel Lys i Farnwyr Cylchdaith mwy profiadol, ynghyd â mwy o hyblygrwydd yn y system o ddsbarthu gwaith rhyngdynt, ar hyd y llinellau canlynol:
 - 68.1 dylai'r holl waith o fewn awdurdodaeth yr Uchel Lys allu cael ei roi ar brawf gan Farnwr Cylchdaith oni fydd, wrth gyfeirio at Farnwr Llywyddol, yn ei roi o'r neilltu'n arbennig i gael ei brofi gan Farnwr Uchel Lys;
 - 68.2 dylai'r swyddog rhestru dynnu sylw'r Barnwr Preswyl at unrhyw achos a all, yn unol â meini prawf wedi eu gosod gan yr Arglwydd Brif Ustus, fod yn briodol i'w neilltuo i Farnwr Uchel Lys, er mwyn i'r Barnwr Preswyl os bydd yn cytuno ei gyfeirio at un o'r Barnwyr Llywyddol i'w benderfynu; a
 - 68.3 dylid gosod fel y maen prawf holl-gynhwysol ar gyfer neilltuo i'w roi ar brawf gan Farnwr Uchel Lys y cwestiwn a yw "yr achos yn achos sy'n arbennig o gymhleth a/neu ddifrifol a/neu o bwysigrwydd cyhoeddus sy'n golygu bod angen ei wrando gan Farnwr Uchel Lys".
69. Dylid dileu'r system ffurfiol o 'haenau' mewn canolfannau llysoedd ar gyfer gwrando dosbarthau penodol o achosion, ac yn ei lle dylid cael system fwy hyblyg, yn cael ei goruchwyllo gan y Barnwyr Llywyddol, ar gyfer aseinio achosion, wedi ei haddasu yn ôl anghenion pob cylchdaith a'r gwaith, a chan roi ystyriaeth i gyfyngiadau ffisegol a chyfleustra lleoliad gwahanol lysoedd.

70. Ar wahân i'r Barnwyr Llywyddol, dylid disodli'r patrwm rheolaidd presennol o gylchdeithio gan Farnwyr yr Uchel Lys gan system lle bydd y Barnwyr Llywyddol yn penderfynu, ar ôl ymgynghori â'u Gweinyddwyr Cylchdaith, ble a phryd y dylai achosion sydd wedi eu neilltuo'n benodol i Farnwyr Uchel Lys gael eu profi.

Gweinyddu barnwrol (*para 57 – 59, tudalennau 249 - 250*)

71. Dylid rhoi amser digonol:
- 71.1 i farnwyr i'w galluogi i reoli a pharatoi achosion sy'n cael eu haseinio iddynt; ac
 - 71.2 i farnwyr sydd â chyfrifoldebau gweinyddol ychwanegol i'w galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.
72. Ym mhob achos, dylid gwneud darpariaeth addas o ran cymorth ysgrifenyddol, gweinyddol neu glerigol fel sy'n briodol, i fodloni'r anghenion hynny.

Llety barnwyr (*para 60 – 64, tudalennau 250 - 252*)

73. Dylai defnyddio llety barnwyr yn y dyfodol ddibynnu ar faint a phatrwm dosbarthiad gwaith Barnwyr yr Uchel Lys ym mhob cylchdaith yn y dyfodol, nid i'r gwrthwyneb.
74. Wrth asesu maint a phatrwm gwaith cylchdaith Barnwyr yr Uchel Lys yn y dyfodol, dylid caniatáu hefyd ar gyfer anghenion presennol ac anghenion a ragwelir o ran gwaith sifil a gwaith teuluol, a datblygiad cyfraith weinyddol ranbarthol gyfnodol ac awdurdodaethau apeliadol.
75. Os caiff fy argymhellion eu mabwysiadu i gyfyngu gwaith Barnwyr yr Uchel Lys ar gylchdaith i'r achosion mwyaf difrifol ac am fwy o hyblygrwydd o ran ble a phryd y dylid eu gwranddo:
- 75.1 dylai llety sy'n rhesymol o ran gwerth yr arian, gan gymryd i ystyriaeth ymhlith pethau eraill ei gyfleustra o ran canolfannau llys mawr a nifer y barnwyr y maent fel rheol yn eu cymryd ac am faint o amser, gael ei gadw neu ei sicrhau; ac
 - 75.2 mewn achosion eraill, dylid ystyried llety addas gwahanol sy'n briodol o ran hyd eisteddiad a maint achos(ion), er enghraifft, hoteliau, gwestai o fath Wolsey Lodge, a llety sy'n cael ei rentu a'i wasanaethu.

Cyfansoddiad y farnwriaeth

Penodi i swydd farnwrol (para 68 – 87, tudalennau 254 - 262)

76. Perygl gwahaniaethu anuniongyrchol yn yr achosion hynny lle nad yw'r ymgeiswyr am benodiad barnwrol hwyrach wedi cael sylw mawr yn y broses ymgynghori, ac yn enwedig merched, lleiafrifoedd ethnig a chyfreithwyr, yw'r gofid mwyaf sy'n cael ei godi amlaf ymhlith y rheiny sy'n teimlo bod y system benodiadau'n annheg iddynt. Nid yw'n ddigon aros i'r proffesiynau gyflwyno i

Adran yr Arglwydd Ganghellor ymgeiswyr ‘gweladwy’ addas yn ogystal ag ymgeiswyr sydd â chymwysterau ar gyfer eu penodi. Dylai’n rymus weithredu ei bolisi sydd wedi ei ddatgan o ymgynghori mor eang â phosibl ym mhob achos.

77. Os bydd y cynllun llywio ar gyfer canolfannau asesu a fwriedir gan yr Arglwydd Ganghellor yn llwyddiannus, dylid ystyried ymestyn ei ddefnyddio mewn trefniadau amser-llawn a rhan-amser eraill i benodi i’r farnwriaeth.

Anabledd (para 88, tudalennau 262 - 263)

78. Dylai Adran yr Arglwydd Ganghellor sefydlu a chyhoeddi canllawiau clir ar benodi pobl anabl i swyddi barnwrol.

Hyfforddiant ac arfarnu

Hyfforddiant (para 89 – 97, tudalennau 263 - 266)

79. Dylai’r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol gael digon o adnoddau i fodloni anghe-nion hyfforddiant cynyddol y farnwriaeth, gan gynnwys y rheiny mewn cysyll-tiad ag awdurdodaethau arbennig, rheoli achosion, technoleg gwybodaeth a gweinyddu barnwrol.

Arfarnu (para 98 – 104, tudalennau 266 - 268)

80. Dylai cynllun arfarnu gael ei gyflwyno ar gyfer pawb sydd mewn swydd farn-wrol ran-amser, a’i atgyfnerthu gan system o hunan-arfarnu rheolaidd.
81. Dylai’r asesiadau a gynhyrchir fod ar gael i’r rheiny sy’n cynghori’r Arglwydd Ganghellor am benodiadau barnwrol amser-llawn.
82. Dylid ystyried, ar ôl ymgynghori’n eang ymhlith y farnwriaeth ac eraill, sys-tem o arfarnu ar gyfer barnwyr amser-llawn; dylai canlyniadau asesiadau felly, fodd bynnag, gael eu darparu o dan amgylchiadau eithriadol yn unig i rywun heblaw’r Barnwyr Llywyddol neu’r Pennaeth Adran perthnasol.

PENNOD SAITH LLYS TROSEDDOL UNEDIG

Llys Troseddol unedig (para 2 – 35, tudalennau 70 - 281)

83. Dylid sefydlu Llys Troseddol unedig.
84. Dylid cael tair lefel o awdurdodaeth o fewn y Llys Troseddol unedig yn cyn-nwys Adran y Goron i ymarfer awdurdodaeth dros bob mater ditiadwy yn unig ac unrhyw achosion ‘naill-ffordd’ a anfonir iddo; yr Adran Ranbarthol i ymar-fer awdurdodaeth dros y materion ‘naill-ffordd’ hynny a anfonir iddo; a’r Adran Ynadon i ymarfer awdurdodaeth dros yr holl faterion ynadol yn unig a’r achosion ‘naill-ffordd’ hynny a anfonir iddo.
85. Dylai Adran y Goron a’r Adran Ynadon gael eu cyfansoddi yn yr un ffordd â Llys y Goron a’r llysoedd ynadon yn y drefn honno, a dylai’r Adran Ranbarthol gyn-nwys barnwr, sef Barnwr Rhanbarth yn bennaf, ac o leiaf ddau ynad profiadol

(neu farnwr yn unig os bydd diffynnydd gyda chaniatâd y llys yn dewis hynny).

86. Dylai awdurdodaeth yr Adran Ranbarthol dros droseddau 'naill-ffordd' gael ei chyfyngu i'r rheiny sydd o fewn dedfryd uchaf debygol o dan amgylchiadau'r achos o edrych arno ar ei waethaf (yn wahanol i'r ddedfryd hiraf gyfreithiol ar gyfer achos neu achosion yn y categori hwnnw) o ddwy flynedd o garchar, dyweder, a chosb ariannol uchaf i gael ei phenderfynu a/neu uchafswm o ddedfrydau cymunedol, neu gyfuniad o garchar a gwaith cymunedol, i'w penderfynu yng ngoleuni diwygio'r fframwaith dedfrydu yn y dyfodol.
87. Dylai'r Adran Ranbarthol, yn eistedd fel llys ieuentid, hefyd wrando achosion difrifol yn erbyn diffynnyddion ifanc y delir â hwy ar hyn o bryd yn Llys y Goron; gweler argymhelliad 48.

Dosbarthu achosion (*para 36 – 40, tudalennau 281 - 283*)

88. Dylai pob achos gael gwrandawriad dosbarthu yn yr Adran Ynadon lle dylid cymryd ple.
89. Dylai pob achos y gellir ei wrando'n ynadol yn unig barhau yn yr Adran Ynadon, a dylai pob achos y gellir ei wrando ar dditiad yn unig gael ei anfon i Adran y Goron.
90. Dylai'r llys ddosbarthu pob achos 'naill-ffordd' yn ôl difrifoldeb y trosedd a honnir ac amgylchiadau'r diffynnydd yn unol â meini prawf statudol wedi eu llunio'n fras, gan edrych ar yr achos ar ei waethaf o safbwynt y diffynnydd a chan gadw mewn cof awdurdodaeth pob adran.
91. Lle bydd anghydfod neu ansicrwydd ynglŷn â lleoliad, dylai'r ynadon ddosbarthu'r achos; fel arall dylai Barnwr Rhanbarth wneud hynny ar ôl gwrandawriad sylwadau am y mater gan y naill ochr a'r llall.
92. Dylai'r Llywodraeth sicrhau, fel mater o frys, ddarparu'n rheolaidd, drwy system integredig o dechnoleg gwybodaeth neu fel arall, wybodaeth gyflawn a chywir am gofnod troseddol diffynnydd ym mhob gwrandawriad dosbarthu.
93. Lle bydd cyhuddiadau a/neu ddiffynnyddion wedi eu cysylltu, dylent i gyd fel rheol gael eu dosbarthu i'r adran sydd ag awdurdodaeth i wrando'r mwyaf difrifol o'r cyhuddiadau.
94. Dylai'r amddiffyniad a'r erlyniad gael hawl i apelio ar bapur o benderfyniad dosbarthiad sy'n cael ei herio i Farnwr Cylchdaith wedi ei enwebu at y diben, a dylid darparu ar gyfer gwrandawriad apelau felly yn gyflym.
95. Dylai'r amddiffyniad a'r erlyniad, hyd at fan penodol cyn treial, allu ceisio ailddosbarthu yng ngoleuni unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r trosedd(au) a honnir a/neu yn amgylchiadau'r diffynnydd rhwng y dosbarthiad a'r treial.

Y cylchdeithiau (*para 41 – 49, tudalennau 283 - 287*)

96. Hyd y gellir gweld yn y dyfodol, dylai ffiniau a gweinyddiaethau cylchdeithiau barhau'n fras fel y maent.

97. Dylai pob cylchdaith barhau i gael Barnwyr Llywyddol, Barnwyr Siawnsri Goruchwyliol a Barnwyr Cyswllt Teuluol a Gweinyddydd Cylchdaith sy'n cyflawni eu swyddogaethau perthnasol presennol, er mwyn i'r Gweinyddydd Cylchdaith barhau i weithredu fel y man cyswllt canolog ar eu cyfer.
98. Pa newidiadau bynnag a ragwelir ar gyfer trefniadaeth weinyddol y cylchdeithiau, dylid penderfynu'n gyntaf a yw'r system ddeuol bresennol o lysoedd i gael ei disodli gan Lys Troseddol unedig gan roi sylw manwl i anghenion yr awdurdodaethau sifil a theulu y tu allan i Lundain, yn ogystal ag awdurdodaethau troseddau.
99. Dylid gwneud arolwg o bryd i'w gilydd i briodoldeb parhau Cylchdaith De Ddwyrain Lloegr fel un gylchdaith, gan gymryd i ystyriaeth ymhlith bethau eraill faint ac anghenion arbennig Llundain Fwyaf.

Strwythur rheolaeth newydd (*para 50 – 73, tudalennau 287 - 295*)

100. Dylai un asiantaeth weithredol yn cael ei hariannu'n ganolog, fel rhan o Adran yr Arglwydd Ganghellor, fod yn gyfrifol am weinyddiaeth yr holl lysoedd, rhai sifil, troseddol a theuluol (ac eithrio Pwyllgor Apeliadol Tŷ'r Arglwyddi), gan ddisodli'r Gwasanaeth Llysoedd a'r Pwyllgorau Llysoedd Ynadon.
101. Dylai'r asiantaeth gael ei harwain gan fwrdd cenedlaethol a phrif weithredwr.
102. O fewn pob cylchdaith dylai'r llysoedd troseddol, os yw hynny'n gyson â gweithredu llysoedd sifil a llysoedd teulu yn effeithlon ac effeithiol, gael eu trefnu o ran rheolaeth ar sail y 4 ardal cyfiawnder troseddol.
103. Dylai gweithredu polisi cenedlaethol a rheolaeth ar lefel leol dros bob un o'r tair awdurdodaeth fod yn rhan o gyfrifoldeb rheolwyr lleol yn gweithio mewn cysylltiad agos â barnwyr ac ynadon lleol, yn debyg iawn i'r ffordd mae'r Gweinyddwyr Cylchdaith a Barnwyr Llywyddol, Goruchwylwyr Siawnsri a Barnwyr Cyswllt Teulu yn ei wneud ar lefel cylchdaith.

Swyddogaeth cleric yr ynadon yn y dyfodol (*para 74, tudalennau 295 - 295*)

104. Mewn Llys Troseddol unedig:
 - 104.1 dylai clercod ynadon barhau i fod yn gyfrifol am yr holl gyngor cyfreithiol a ddarperir i ynadon;
 - 104.2 dylid gwneud trefniadau i sicrhau, os bydd cleric yr ynadon yn absennol, bod ynadon ym mhob llys yn gallu troi'n hawdd at gynghorwr cyfreithiol uwch; a
 - 104.3 ni ddylai clercod ynadon fel rheol ymarfer cyfrifoldebau gweinyddol nad ydynt yn gysylltiedig â'u swyddogaeth fel cynghorydd cyfreithiol i'r ynadon.

Rheolaeth farnwrol (*para 75 – 83, tudalennau 296 - 300*)

105. Mewn Llys Troseddol unedig:
 - 105.1 dylai Barnwyr Preswyl fod yn gyfrifol, o dan oruchwyliaeth y Barnwyr

Llywyddol, am reolaeth farnwrol canolfannau llysoedd;

- 105.2 mewn perthynas â'r Fainc Ranbarthol ac ynadon, dylai'r cyfrifoldebau hyn gynnwys goruchwyllo: rhestru; aelodaeth paneli; dosbarthu achosion; hyfforddiant a datblygiad; ac arfarnu;
- 105.3 dylai Barnwyr Preswyl gael yr amser angenrheidiol y tu allan i'r llys a rhywfaint o gefnogaeth weinyddol a chefnogaeth arall i gyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn;
- 105.4 dylid cael arolygon dilynol o nifer a lleoliad Barnwyr Preswyl, a hefyd eu cydnabyddiaethau; a
- 105.5 dylai trefniadaeth a strwythur y Fainc Ranbarthol yn y dyfodol gael eu harolygu yng ngoleuni'r newidiadau hyn.

Adeiladau llysoedd (*para 84 – 90, tudalennau 300 - 304*)

106. Os caiff fy argymhellion ym Mhennod 8 ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol eu derbyn, dylai penderfyniadau am ddarparu a chau canolfannau llysoedd fod yn rhan o gyfrifoldeb Byrddau lleol, o dan oruchwyliaeth ac arweiniad y Bwrdd cenedlaethol.
107. Dylid gwneud penderfyniadau er lles pawb dan sylw yn y broses cyfiawnder troseddol yn eu hardal, a chyda mantais ymarfer cost/lles gan gymryd i ystyriaeth les y cyhoedd yn ei ystyr ehangaf.
108. Dylid cael arolwg o'r holl adeiladau llys ac asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn galluogi gwneud asesiad ar y cyd o'r ffordd fwyaf effeithlon i'r system yn ei chyfanrwydd ddefnyddio adeiladau sydd ar gael a chynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol.
109. Wrth gynllunio a darparu adeiladau llysoedd, dylid caniatáu'n briodol ar gyfer y ffaith nad yw system cyfiawnder troseddol sy'n gyfiawn ac yn effeithlon yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio pob adeilad llys drwy'r amser.
110. Wrth gynllunio a darparu adeiladau llysoedd, dylid caniatáu'n sylweddol ar gyfer yr amrywiaeth mawr yn y galwadau ar amser llysoedd ac ansicrwydd mentrau polisi cyfiawnder troseddol yn y dyfodol (hynny yw, "goddefgarwch digonol dros ddefnydd llawn tybiedig").
111. Dylai Canllaw Dylunio Llysoedd Troseddol Newydd gael ei baratoi fel safon, a dylai adeiladau llysoedd gydymffurfio â hi ymhen amser.

Technoleg gwybodaeth (*para 91 – 102, tudalennau 304 - 308*)

112. Dylai system technoleg gwybodaeth sengl gael ei datblygu ar gyfer y Llys Troseddol unedig gan gyfuno elfennau dylunio gorau'r holl systemau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron, a chan gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau cyfatebol yn yr awdurdodaethau sifil a theulu.
113. Dylai rheoli gweithredu technoleg gwybodaeth ar gyfer y Llys Troseddol unedig ddod o dan oruchwyliaeth Bwrdd lle mae'r farnwriaeth yn cael ei chyn-

rychioli, a dylid gwneud hynny drwy ymgynghori'n agos â'r Grŵp Technoleg Barnwriaethol.

114. Dylai cynllunio a gweithredu diwygiadau trefn fynd law yn llaw â datblygu a chyflwyno'r dechnoleg gwybodaeth gefnogol angenrheidiol.

Diogelwch (*para 103 – 116, tudalennau 309 - 314*)

115. Dylai'r Arglwydd Ganghellor, fel mater o frys, gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol a rheolaeth dros ddiogelwch llysoedd o bob lefel ac awdurdodaeth.
116. Dylai'r rheiny sydd â dyletswydd i ddarparu diogelwch gael yr un pwerau ym mhob llys troseddol.
117. Dylid ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ddychwelyd i ddarparu diogelwch yn y llysoedd troseddol, neu i sefydlu Gwasanaeth Swyddogion Siryf mewn lifrai a fyddai'n cael eu hyfforddi'n llawn, yn meddu ar bwerau'r heddlu ac yn gweithredu o dan oruchwyliaeth gyffredinol y farnwriaeth leol.
118. Dylid gwneud arolwg o'r ddarpariaeth angenrheidiol, o ran adeilad, technoleg ac fel arall, i ddiogelu tystion sy'n agored i ddioddef ac eraill yn y llys, ac i alluogi'r tystion hynny lle mae'n briodol ac yn angenrheidiol i roi eu tystiolaeth drwy gyfrwng cyswllt fideo ar wahân i'r llys.
119. Os caiff fy argymhellion ym Mhennod 8 eu mabwysiadu, dylai graddau a chyfrifoldeb ariannol y diogelwch a ddarperir yn y Llys Troseddol fod yn gyfrifoldeb cyfiawnder troseddol ar y cyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar ran Gweinidogion.

Arolygu (*para 117, tudalen 314*)

120. Os caiff Llys Troseddol unedig ac un asiantaeth weinyddol gefnogol eu sefydlu yn unol â'm hargymhellion, dylid creu Arolygiaeth annibynnol ar gyfer yr asiantaeth honno, i adrodd yn ôl i'r Arglwydd Ganghellor.

PENNOD WYTH Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Rheoli cyfiawnder troseddol (*para 43 – 77, tudalennau 330 - 346*)

121. Dylai Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ddisodli'r Grŵp Cynllunio Strategol, y Grŵp Materion Treialon cenedlaethol a'i is-grwpiau, a chymryd unrhyw rai o gyfrifoldebau'r Cyngor Ymgynghorol Cyfiawnder Troseddol a all fod yn weithredol.
122. Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol fod yn gyfrifol am gyfarwyddo'r system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol, gyda chylch gwaith i gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
- cynllunio a gosod amcanion system cyfiawnder troseddol;
 - trefnu cyllideb a dosbarthu arian;

- sicrhau cyflawni ei amcanion ar lefel genedlaethol a lleol;
 - datblygu a gweithredu system integredig o dechnoleg gwybodaeth;
 - ymchwil a datblygiad; ac
 - atal anghydraddoldeb a gwahaniaethu drwy'r system cyfiawnder troseddol i gyd.
123. Dylai'r Bwrdd gael ei gadeirio gan gadeirydd annibynnol a dylai ei aelodaeth gynnwys gweision sifil uwch o'r tair prif adran cyfiawnder troseddol a'r Trysorlys, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Prif Swyddogion yr Asiantaeth Rheoli Achosion Troseddol, y Llys Troseddol unedig, Gwasanaethau'r Heddlu a'r Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf, a nifer fach o aelodau anweithredol.
124. Ni ddylai'r Bwrdd gynnwys barnwr, ond dylai ymgynghori'n rheolaidd â'r Arglwydd Brif Ustus a barnwyr uwch eraill.
125. Dylai'r Bwrdd gael ei gefnogi gan adran ysgrifenyddol a strwythur gweinyddol cenedlaethol sy'n atebol iddo, a dylai fod yn gyfrifol am ddatblygu system o dechnoleg gwybodaeth ar gyfer yr holl system cyfiawnder troseddol.
126. Dylai Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol ddisodli'r Pwyllgorau Strategaeth Ardal, TIG lleol, Grwpiau Prif Swyddogion, a lle mae'r rheiny'n bodoli, Fyrddau Cyfiawnder Troseddol lleol wedi eu cyfansoddi'n anffurfiol gan ddefnyddio'u haelodau.
127. Dylai'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol fod yn gyfrifol am weithredu ar lefel leol gyfarwyddiadau ac amcanion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol cenedlaethol ac am reoli'r system cyfiawnder troseddol yn eu hardaloedd.
128. Dylai aelodaeth y Byrddau lleol gynnwys: rheolwyr lleol y Llys Troseddol, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; y Prif Gwnstabl lleol; Prif Erlynydd y Goron yn lleol; y Prif Swyddog Prawf lleol; cynrychiolwyr o'r Tîm Troseddau Ieuenctid, Victim Support, cynrychiolwyr y Bar a chyfreithwyr lleol o bosibl, ac o leiaf ddau aelod anweithredol.
129. Dylai pob Bwrdd lleol gael adran ysgrifenyddol benodedig gydag adnoddau priodol yn atebol i'r adran ysgrifenyddol genedlaethol, cael cyllideb leol ar y cyd, a gallu dewis ei gadeirydd ei hun.

Cynghori am gyfiawnder troseddol (*para 78 – 88, tudalennau 346 - 351*)

130. Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol Cyfiawnder Troseddol gael ei ddisodli gan Gyngor Cyfiawnder Troseddol gyda grym a dyletswydd statudol a gallu priodol:
- i gadw golwg ar y system cyfiawnder troseddol;
 - i gynghori'r Llywodraeth am ffurf a dull gweithredu pob diwygiad a fwriedir mewn cyfiawnder troseddol, ac i gyflwyno cynigion iddo ar gyfer diwygio;
 - i ddarparu gorolwg gyffredinol o'r rhaglen a'r strwythurau ar gyfer

cyflwyno a chynnal codeiddio'r gyfraith droseddol berthnasol, trefn, tystiolaeth a dedfrydu fel yr wyf yn ei argymhell ym Mhennod 1;

- i gynghori'r Llywodraeth am lunio a gweithredu strategaeth cyfathrebu ac addysg ar gyfer y system cyfiawnder troseddol; ac
 - at unrhyw rai o'r dibenion hyn, i ymgynghori a/neu gomisiynu rhaglenni ymchwil.
131. Cyn cychwyn cynigion allweddol ar gyfer diwygio'r system cyfiawnder troseddol, dylai fod yn rheidrwydd statudol ar y Llywodraeth i'w cyfeirio at y Cyngor er mwyn ei gynghori ac i gymryd i ystyriaeth unrhyw gynigion neu gyngor a gynigir iddo wrth ymateb i gyfeirio felly neu o'i ran ei hun.
132. Dylai'r Cyngor gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Brif Ustus neu Arglwydd-Ustus Apêl uwch, a dylai gynnwys barnwyr o bob lefel, ynadon, ymarferwyr troseddol, cynrychiolwyr y prif asiantaethau a'r cyrff sy'n ymwneud â'r broses cyfiawnder troseddol, ac un neu ragor o academyddion cyfreithiol o fri sy'n arbenigo yn y maes (ni ddylai unrhyw un o'r rheiny fod yn aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol).
133. Dylai'r Cyngor gael adran ysgrifenyddol a staff ymchwil gyda'r adnoddau priodol.
134. Dylai unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor Ymgynghorol Cyfiawnder Troseddol sy'n ymwneud â datblygu a gwella polisiau ac amcanion cenedlaethol drwy gydlynu rhwng asiantaethau, drwy'r Pwyllgorau Strategaeth Ardal ac fel arall, ddod yn rhan o gyfrifoldeb y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a'i strwythur o gefnogaeth weinyddol.
135. Dylai'r Pwyllgorau Strategaeth Ardal ddod i ben.

Arolygu ar y cyd (*para 89 – 91, tudalennau 351 - 352*)

136. Dylai Uned Arolygu ar y cyd gael ei sefydlu'n ffurfiol o dan reolaeth y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol gyda'i gilydd, a dylai gael digon o adnoddau i gychwyn a chydlynu rhaglen o arolygu ar draws asiantaethau.

Technoleg gwybodaeth (*para 92 – 114, tudalennau 352 - 366*)

137. Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol atal y prosiect IBIS o gysylltu'r chwe phrif system technoleg gwybodaeth yn y system cyfiawnder troseddol, ac yn lle hynny, ymhen amser penodol, dylai gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer system technoleg gwybodaeth integredig i'r holl system cyfiawnder troseddol yn seiliedig ar iaith gyffredin a ffeiliau achos electronig cyffredin.
138. Dylai gweithredu system integredig o dechnoleg gwybodaeth gael ei drefnu mewn chwe phrosiect, i redeg naill ai'n gyfochrog neu'n ddilynol, sef:
- olrhain achosion;
 - gwybodaeth rheolaeth;
 - uno data;
 - ymestyn y categorïau defnyddwyr;

- rheolaeth achosion; ac
 - uno technolegau galluogi.
139. Dylai Asiantaeth Rheolaeth Achosion Troseddol gael ei sefydlu, i fod yn atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol am reoli gweithredu'r system integredig, ac ar ôl ei gweithredu, am reoli'r elfennau hynny yn y system lle mae angen rheolaeth ganolog, sef:
- cynhyrchu protocolau systemau a sicrwydd ansawdd mewn data systemau;
 - rheoli a monitro cynnydd achosion;
 - safonau data ar gyfer gwybodaeth rheoli systemau;
 - safonau a phrotocolau i ddarparu mynediad i ddiodefwr, tystion, diffynyddion a'u cynrychiolwyr;
 - storio a chynnal a chadw data;
 - diogelwch data a rheoli mynediad i ddata; a
 - rheolaeth achosion ar lefel systemau.

PENNOD NAW DADGRIMINALEIDDIO A DULLIAU YN LLE TREIAL CONFENSIYNOL

Erlyniadau ynadol

Osgoi talu am drwydded deledu (para 10 – 13, tudalennau 369 - 371)

140. Dylai defnyddio teledu heb drwydded barhau'n dramgwydd troseddol, ond dylid delio â hyn yn y lle cyntaf drwy rybudd cosb benodedig gyda disgownt am brynu trwydded yn brydlon a thalu cosb, a chan ddibynnu ar hawl y diffynnydd i ddadlau ei euogrwydd yn y llys.

Materion ynadol eraill (20 – 25, tudalennau 371 - 375)

141. Dylid defnyddio rhybuddion cosb benodedig mewn cysylltiad â phob trosedd y darperir ar ei gyfer yn Neddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988, Rhan III ac Atodlen 3, oni fydd amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr fod yn y llys.
142. Dylid cael arolwg systemataidd yn arwain at gosb benodol debyg a/neu gynlluniau rhybudd-i-gywiro ar gyfer amrywiaeth ehangach o achosion tor-cyfraith sydd ar hyn o bryd yn destun erlyn troseddol.

Trefn wahanol

'Cerydd-plws' (para 41 – 47, tudalennau 380 - 381)

143. Dylid ystyried cyflwyno cynllun cerydd amodol dros amrywiaeth eang o fân droseddau, gan alluogi'r erlynydd gyda chaniatâd y troseddwr a lle bydd hynny'n briodol, gyda chymeradwyaeth y llys:
- i'w geryddu cyn belled â'i fod yn cydymffurfio ag amodau penodedig; ac
 - i ddod â'r troseddwr sydd wedi cael cerydd amodol gerbron y llys os bydd yn methu cydymffurfio â'r amodau.
144. Wrth ystyried cyflwyno cynllun felly, dylid rhoi ystyriaeth i le hyn ar y cyd â darpariaethau presennol i osgoi neu ddiwygio'r broses droseddol a datblygiadau'r dyfodol ar ffurf 'cyfiawnder adferol', gyda'r bwriad o resymoli cyffredinol fel un cynllun.

Gorfodaeth reoleiddio (para 48 – 51, tudalennau 383 - 384)

145. Ar ôl i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gymryd y cyfrifoldeb llawn dros oruchwylio yn y maes gwasanaethau ariannol, dylid ystyried trosglwyddo achosion priodol o dor-cyfraith ariannol a masnachol o'r broses cyfiawnder troseddol i'w rheoleiddio a'u disgyblu o dan reolaeth yr Awdurdod hwnnw.

Achosion cyfochrog (para 52 – 55, tudalennau 384 - 386)

146. Dylid ystyried, ar gyfer achosion cyfochrog priodol, gyfuno'r prosesau cyfiawnder troseddol a rheoleiddiol, gyda barnwr fel y llywydd cyffredin, a chydag aelodau lleyg neu aseswyr arbenigol ar gyfer yr ail ran reoleiddio.
147. Mewn achosion o dwyll a throseddau ariannol eraill, dylai llysoedd, pryd bynnag y bydd yn bosibl ac yn briodol, ymarfer y pwerau rheoleiddio sydd ganddynt i benderfynu dedfryd.
148. Dylid ystyried, mewn troseddau priodol, ehangu neu ymestyn pwerau dedfrydu confensiynol y llysoedd yn y cyswllt hwn.
149. Dylai llysoedd wrth ymarfer pwerau felly gael cymorth cwnsler ar ran y partïon wedi ei gyfarwyddo'n briodol at y diben.

Cyfiawnder adferol (para 58 – 69, tudalennau 387 - 391)

150. Dylid datblygu strategaeth genedlaethol a'i gweithredu i sicrhau defnyddio technegau cyfiawnder adferol yn gyson, yn briodol ac yn effeithiol yng Nghymru a Lloegr.

Gorfodi dyledion sifil (para 70 – 77, tudalennau 392 - 394)

151. Dylid gwneud gwaith paratoi gyda'r bwriad o ddileu, maes o law, yr holl orfodi dyledion sifil o bob llys sy'n ymarfer awdurdodaeth droseddol.

Hanfodion*Erlynydd cryf ac annibynnol (para 12, tudalen 399)*

152. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron gael mwy o bwerau cyfreithiol, yn enwedig y pŵer i benderfynu'r cyhuddiad cychwynnol, ac adnoddau digonol i'w alluogi i gael rheolaeth lawn ac effeithiol dros achosion o'r cyfnod cyhuddo neu gyn-gyhuddo, fel sy'n briodol.

Cyfreithwyr amddiffyn effeithiol sy'n cael eu talu'n briodol (para 13 – 27, tudalennau 400 - 404)

153. Dylid rhoi ystyriaeth ar frys i newid strwythur talu ffioedd amddiffyn yn y llysoedd troseddol o gronfeydd cyhoeddus, er mwyn cydnabod ac annog yn briodol baratoi achosion yn ddigonol ac yn briodol i'w penderfynu ar sail ple euogrwydd neu drwy dreial, yn hytrach na pheidio ag annog hynny fel y mae'r strwythur yn ei wneud mewn ffordd wrthnysig ar hyn o bryd.

Nodi'r materion*Y cyhuddiad (para 35 – 45, tudalennau 408 - 413)*

154. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron benderfynu'r cyhuddiad ym mhob trosedd rheolaidd heblaw mân droseddau, ac eithrio pan fydd angen cyhuddiad dal oherwydd yr amgylchiadau cyn cael cyngor y Gwasanaeth.
155. Mewn mân achosion rheolaidd lle bydd yr heddlu'n cyhuddo heb yn gyntaf gael cyngor y Gwasanaeth, dylent ddefnyddio'r un prawf tystiolaeth â'r prawf hwnnw sy'n llywodraethu'r Gwasanaeth yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.
156. Lle mae'r heddlu wedi cyflwyno cyhuddiad dal, ac mewn troseddau ar wahân i fân droseddau rheolaidd, dylai erlynydd arolygu'r cyhuddiad, a'i ail-lunio os bydd angen, mor fuan â phosibl.
157. Dylai 'mân' droseddau neu droseddau 'rheolaidd' at y diben hwn gael eu nodi yn y Cod Trefn Droseddol yr wyf wedi ei argymhell, neu mewn deddfwriaeth gynradd neu is-ddeddfwriaeth arall.

Erlyniadau preifat (para 46 – 50, tudalennau 413 - 414)

158. Dylai'r hawl i erlyniad preifat barhau, yn amodol ar rym y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ar ôl clywed am erlyniad preifat i'w gymryd a'i derfynu.
159. Dylai fod yn ddyletswydd ar unrhyw lys lle caiff erlyniad preifat ei gychwyn i roi gwybod i'r Cyfarwyddwr am hynny ar unwaith yn ysgrifenedig.
160. Dylai'r Cyfarwyddwr, wrth benderfynu terfynu erlyniad preifat y mae wedi ei

gymryd, ddefnyddio prawf lles y cyhoedd yn ogystal â'r prawf tystiolaeth sydd wedi ei osod allan yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Caniatáu'r cyhuddiad (para 51 – 52, tudalennau 415 - 416)

161. Dylid mabwysiadu argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i ddileu'r gofyniad am gael caniatâd y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ac eithrio yn y categorïau hynny o achosion lle byddai ei gadw yn amlwg yn diogelu lles y cyhoedd.

Mecanweithiau cyhuddo (para 53 – 63, tudalennau 416 - 422)

162. Dylai pob erlyniad cyhoeddus fod ar ffurf cyhuddiad, wedi ei roi heb gyfeirio at y llysoedd, a dylai hynny barhau'n sail ar gyfer y cyhuddiad yn erbyn y diffynnydd drwy gydol yr achos, beth bynnag fo lefel y llys lle mae'n cael ei gynnal.
163. Gall y cyhuddiad fod yn llafar neu'n ysgrifenedig, yn gopi ysgrifenedig neu'n wreiddiol, yn ôl yr achos, a hwnnw'n cael ei gyflwyno â llaw neu drwy'r gwasanaeth post.
164. Yn y naill achos neu'r llall, o dan drefniadau gyda gweinyddiaeth y llys, dylai'r cyhuddiad bennu dyddiad mynychu'r llys am y tro cyntaf neu fod yn agored i restio ar warant.
165. Dylai'r drefn bresennol o wneud cais am warant, drwy dyngu llw am broses gyflwyno, mewn troseddau ynadol gael ei dileu a'i disodli gan gais ar bapur i gael ei ystyried a'i benderfynu yn y llys agored.
166. Dylai'r un drefn ar gyfer cychwyn achos fod yn gymwys i achosion preifat, ac eithrio: 1) dylai'r cyhuddiad gael ei weinyddu'n ysgrifenedig yn unig; 2) dylai fod yn agored i ganiatâd blaenorol y llys; 3) dylai'r caniatâd gael ei gefnodi ar y ddalen gyhuddo gan un o swyddogion y llys; a 4) dylai'r llys, cyn rhestru'r mater, roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
167. Dylai'r bil ditiad gwirfoddol gael ei ddileu, ac i'r graddau angenrheidiol o dan drefn newydd o ddsbarthu gwaith mewn Llys Troseddol unedig, dylai dulliau diogelwch gael eu cyflwyno i sicrhau buddiannau cyfiawnder drwy gyfrwng Rheolau Trefn Droseddol.
168. Dylai ffurf y cyhuddiad fod yn gyffredin i droseddau ynadol a throseddau ditiadwy.
169. Dylai fod gan yr erlyniad hawl i ddiwygio'r cyhuddiad hyd at ddyddiad yr asesiad cyn-treial (neu mewn treial ynadon heb asesiad felly, hyd at ddyddiad i gael ei bennu), ond wedi hynny dim ond gyda chaniatâd llys y treial.
170. Dylid symleiddio'r drefn ar gyfer cyhoeddi gwarantau.

Gollwng yr erlyniad (para 64 – 68, tudalennau 422 - 424)

171. Dylai'r gyfraith gael ei diwygio i ddarparu math o drefn sy'n gyffredin i'r holl lysoedd i alluogi'r erlynydd, heb ganiatâd y diffynnydd na chymeradwyaeth y llys, i ollwng yr achos unrhyw bryd cyn cau achos yr erlyniad mewn treial.

172. Os bydd yr erlyniad ar unrhyw adeg yn gollwng yr achos cyn asesiad cyn treial, neu lle na fydd asesiad cyn treial, cyn cyfnod i gael ei bennu, dylai fod gan yr erlyniad hawl i adfer yr erlyniad, yn amodol ar rym y llys i'w ohirio fel mater o gamddefnyddio proses.
173. Os bydd yr erlyniad yn gollwng achos wedi'r cyfnod hwnnw, dylai fod gan y diffynnydd hawl i gael ei ryddhau, ac eithrio lle bydd y llys am reswm da yn caniatáu i'r erlyniad 'barhau ar y ffeil'.
174. Dylid cael darpariaeth gyffredin ar gyfer pob llys, yn amodol ar eu cymeradwyaeth a chytundeb pawb dan sylw, i roi grym ffurfiol i ollwng felly, a lle bydd hynny'n briodol, i ryddhau os bydd y partion yn absennol.

Mechnïaeth (*para 69 – 82, tudalennau 424 - 431*)

175. Dylai ynadon a barnwyr ym mhob llys gymryd mwy o amser i ystyried materion mechnïaeth.
176. Dylai arferion rhestru adlewyrchu'r angen am roi amser priodol i geisiadau am fechnïaeth, a chaniatáu'r hyblygrwydd angenrheidiol i bob parti allu crynhoi gwybodaeth ddigonol i'r llys allu gwneud penderfyniad priodol.
177. Dylai llysoedd, yr heddlu, erlynwyr a chynrychiolwyr amddiffyn gael gwell gwybodaeth am y dasg nag a gânt ar hyn o bryd, yn arbennig wybodaeth gyflawn wedi ei diweddarau am gofnod y diffynnydd sy'n cael ei gadw ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, cofnodion prawf perthnasol neu gofnodion gwasanaeth cymdeithasol eraill, os oes rhai o gwbl, gwybodaeth wedi ei dilysu am amodau byw'r cartref a chyflogaeth, os oes o gwbl, a digon o wybodaeth am y trosedd a honnir a pherthynas hwnnw, os o gwbl, â'i gofnod er mwyn dangos a oes patrwm o drosedd.
178. Dylai llysoedd a'r holl asiantaethau perthnasol gael system gyffredin o dechnoleg gwybodaeth, fel yr argymhellir ym Mhennod 8, i hwyluso darparu'r wybodaeth uchod i bawb y mae angen iddynt ei chael.
179. Dylid cael hyfforddiant priodol ar gyfer ynadon a barnwyr wrth wneud penderfyniadau mechnïaeth, gan gadw Erthygl 5 ECHR ac asesiad perygl yn arbennig mewn cof, fel mae Comisiwn y Gyfraith wedi ei awgrymu.
180. Dylai pob llys gael cynllun effeithlon o wybodaeth a chefnogaeth mechnïaeth.
181. Dylai hysbysebion mechnïaeth gael eu mynegi mewn Cymraeg a Saesneg clir, wedi eu hargraffu a'u rhoi i'r diffynnydd fel gorchymyn llys ffurfiol pan gaiff y penderfyniad mechnïaeth ei wneud, er mwyn iddo ddeall yn union beth mae'n ofynnol iddo ei wneud a gwerthfawrogi difrifoldeb rhoi mechnïaeth ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig.
182. Dylai pob llys fod yn ofalus wrth fabwysiadu cynigion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer cofnodi penderfyniadau mechnïaeth mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut maent wedi eu llunio.

Apelau yn erbyn penderfyniadau mechnïaeth (para 83 – 90, tudalennau 431 - 434)

183. Dylid dileu'r hawl i wneud cais i Farnwr Uchel Lys am fechnïaeth ar ôl penderfynu hynny gan unrhyw lys troseddol sy'n ymarfer ei awdurdodaeth wreiddiol neu apeliadol, ac yn lle hynny dylid cael hawl i apelio o'r Adran Ranbarthol neu Adran y Goron (Llys y Goron) ar fater o gyfraith yn unig.
184. Dylai diffynnyddion gael yr hawl i apelio yn erbyn rhoi mechnïaeth yn amodol yn yr Adran Ynadon (llysoedd ynadon) i Adran y Goron (Llys y Goron) mewn cysylltiad ag unrhyw amodau a osodir o ran preswyllo oddi cartref a/neu ddarparu meichiau neu feichiafon neu roi sicrwydd.
185. Dylai'r erlyniad gael hawl i apelio i Adran y Goron yn erbyn rhoi mechnïaeth gan yr Adran Ynadon (llysoedd ynadon) mewn cysylltiad â phob trosedd a fyddai, ar ôl dyfarnu'n euog, i gael ei gosbi gan ddedfryd o garchar neu ddedfryd carchar rhannol.

Rhoi gwybod ymlaen llaw am ddedfryd (para 91 – 114, tudalennau 434 - 444)

186. Dylid cyflwyno, drwy gyfrwng canllaw dedfrydu barnwrol i'w ymgorffori'n ddiweddarach mewn Cod Dedfrydu, system o ddisgownt dedfrydu wedi ei graddio fel y bydd y disgownt yn uwch po gynharaf y cyflwynir ple euogrwydd, ynghyd â system o roi gwybod ymlaen llaw am ddedfryd i ddiffynnydd sy'n ystyried pledio'n euog.
187. Ar gais diffynnydd, drwy ei adfocad, dylai fod gan y barnwr hawl yn ffurfiol i roi awgrym o'r ddedfryd uchaf os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog bryd hynny, a'r ddedfryd bosibl ar ôl dyfarnu'n euog ar ôl treial.
188. Dylai'r cais i'r barnwr a'r holl achosion cysylltiedig sy'n dilyn fod yn y llys, ym mhresenoldeb yr erlyniad, y diffynnydd a'i gynghorwyr a gohebydd y llys, ond fel arall yn breifat, a dylid cofnodi hynny'n llawn.
189. Dylai'r barnwr ymholi, drwy wyntyllu'r mater gyda'r ddau adfocad, am gymhwyster meddyliol a chyflwr emosiynol y diffynnydd ac a allai fod o dan bwysau i gyfaddef euogrwydd yn fflug.
190. Dylai'r erlyniad a'r amddiffyniad gael popeth angenrheidiol i gyflwyno gerbron y barnwr yr holl wybodaeth berthnasol am y trosedd(au) a'r diffynnydd, gan gynnwys unrhyw adroddiadau cyn dedfrydu neu adroddiadau eraill ac unrhyw ddatganiad am effaith ar y dioddefwr, er mwyn galluogi'r barnwr i roi awgrym.
191. Dylai'r barnwr roi awgrym dim ond ac os bydd yn fodlon fod ganddo ddigon o wybodaeth ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.
192. Lle bydd adfocad diffynnydd, o ganlyniad i awgrym felly, yn awgrymu wrth y barnwr ei fod yn dymuno pledio'n euog, dylai'r barnwr, drwy holi'r diffynnydd yn uniongyrchol, ei fodloni ei hun fod y diffynnydd yn deall effaith ei fwriad i bledio, y byddai hynny'n wir ac y byddai'n wirfoddol.

193. Dylai'r barnwr gael ei rwymo gan yr awgrym hwnnw, a hefyd unrhyw farnwr arall y gall y diffynnydd ymddangos o'i flaen i'w ddedfrydu, oherwydd pleidio'n euog wedyn.

Datgelu

Datgelu ymlaen llaw gan yr erlyniad (para 117 – 120, tudalennau 445 - 447)

194. Dylid cael un set o reolau statudol yn gosod ar yr erlyniad ym mhob achos ddyletswydd i ddarparu'r dystiolaeth a fwriedir ganddo mewn digon o amser i alluogi'r amddiffyniad i baratoi'n ddigonol ar gyfer treial, a'r union amserlen i gael ei phennu gan reolau.

Datgelu defnydd heb ei ddefnyddio a datganiad amddiffyniad (para 121 – 184, tudalennau 447 - 474)

195. Dylid cadw'r cynllun datgelu defnydd sydd yn Neddf Trefn ac Ymholiadau Troseddol 1996, yn arbennig y ddau gam mewn datgelu gan erlyniad pan gaiff yr ail gam ei ehangu gan ddatganiad amddiffyniad, ac yn amodol ar hwnnw, sy'n nodi'r pynciau mae'r diffynnydd yn bwriadu eu cyflwyno mewn treial.
196. Dylai'r cyfuniad presennol o ddeddfwriaeth gynradd a deddfwriaeth eilaidd, Cod, Canllawiau a Chyfarwyddiadau gael ei ddisodli gan un offeryn wedi ei fynegi'n syml sy'n gosod allan yn glir ddyletswyddau a hawliau pawb dan sylw.
197. Dylid cael yr un prawf o ran datgelu ar gyfer y ddau gam yn natgeliad yr erlyniad gan ddatgelu sylwedd, ac er enghraifft ar gyfer datgelu "defnydd a allai, ym marn yr erlynydd, yn rhesymol effeithio ar benderfynu unrhyw bwnc yn yr achos ac yntau'n gwybod amdano neu y dylai'n rhesymol ei ddisgwyl" neu, yn symlach ond gan ail-ddweud "defnydd a allai ym marn yr erlynydd wanhau achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos yr amddiffyniad".
198. Yn ogystal, dylid cael datgelu prif dystiolaeth yn awtomatig ym mhob math o achos neu rai mathau o achosion o rai categorïau cyffredin o ddogfennau a/neu o ddogfennau drwy gyfeirio at rai materion penodol.
199. Dylai'r heddlu gadw'r cyfrifoldeb dros gadw, crynhoi a chofnodi unrhyw ddefnydd sy'n cael ei gasglu neu ei archwilio yn ystod yr ymchwiliad; dylai swyddogion heddlu gael eu hyfforddi'n well ar gyfer yr hyn a all fod, mewn llawer achos, yn ymarfer helaeth ac anodd heb sôn am faterion datgelu, ac yn amodol wrth wneud hynny ar ganllawiau statudol a system rymus o archwiliadau 'yn y man a'r lle' gan Arolygiaethau Heddluoedd Ei Mawrhydi a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron.
200. Dylai'r cyfrifoldeb sydd gan yr heddlu dros nodi ac ystyried yr holl ddefnydd a allai fod yn ddefnydd datgelu gael ei drosglwyddo i'r erlynydd.
201. Dylai'r erlynydd gadw'r cyfrifoldeb yn y pen draw dros gyflawnder y defnydd sy'n cael ei gofnodi gan yr heddlu, a chymryd y cyfrifoldeb llwyr dros ddatgelu prif dystiolaeth a phob datgeliad wedyn.

202. Dylai gofynion datganiad amddiffyniad barhau fel ar hyn o bryd, a hefyd y gofynion ar gyfer manylion lle mae'r amddiffyniad yn alibi a/neu lle bydd yr amddiffyniad yn bwriadu crybwyll tystiolaeth arbenigol.
203. Dylai defnyddio datganiadau amddiffyniad yn fwy effeithiol gael ei hwyluso gan y gwelliannau cyffredinol yr wyf wedi eu hargymell ar gyfer y system o baratoi ar gyfer treial, a dylid annog hynny drwy reolau ymddygiad proffesiynol, hyfforddiant, ac yn yr achosion prin lle gallai hynny fod yn briodol, gan ddisgyblaeth er mwyn argraffu ar ymarferwyr amddiffyniad troseddol briodoldeb y gofynion a'r angen i gydymffurfio â hwy.
204. Dylid cael amserlen wedi ei diffinio'n glir ar gyfer pob lefel o awdurdodaeth ym mhob cam mewn datgelu gan y naill ochr a'r llall, oni fydd y llys mewn unrhyw achos unigol yn gorchymyn yn wahanol.
205. Dylai'r Gwasanaeth Carchardai gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer mynediad i drefn briodol gan garcharorion remand er mwyn sicrhau na fyddant yn cael mwy o anhawster na diffynyddion ar fechnïaeth wrth baratoi ar gyfer eu treial.

Datgelu gan drydydd parti (para 185 – 190, tudalennau 474 - 476)

206. Dylid ystyried cynllun statudol newydd ar gyfer datgelu gan drydydd parti, gan gynnwys goblygiadau cost hynny i bawb dan sylw, i weithredu ar y cyd â'r darpariaethau cyffredinol ar gyfer datgelu defnydd heb ei ddefnyddio, ac i weithredu'n fwy cyson â'r rheiny.

Imiwneidd lles y cyhoedd (para 191 – 197, tudalennau 476 - 479)

207. Dylid cyflwyno cynllun i'r llys gyfarwyddo cwmsler annibynnol arbennig i gynrychioli buddiannau'r diffynnydd yn yr achosion hynny yn y lle cyntaf, ac ar apêl lle mae'r llys nawr yn ystyried ceisiadau erlyniad yn absenoldeb y diffynnydd mewn cysylltiad â pheidio â datgelu defnydd sensitif.

Rheoli achosion

Dosbarthu achosion (para 200 – 202, tudalennau 480 - 481)

208. O dan y system bresennol o lysoedd troseddol, dylid cael un math syml o drefn ar gyfer symud pob achos o lysoedd ynadon i Lys y Goron, yn lle'r cyfuniad presennol o drefn ar gyfer traddodi, llythyr gwirfoddol, trosglwyddo ac anfon.
209. Os caiff fy argymhellion ar gyfer Llys Troseddol unedig eu mabwysiadu, dylai un drefn debyg lywodraethu symud pob achos o'r Adran Ynadon i'r Adran Ranbarthol neu Adran y Goron.

Gwrandawiaadau cyn treial ac asesiadau cyn treial (para 204 – 235, tudalennau 482 - 495)

210. Wrth baratoi ar gyfer treial ym mhob llys troseddol, dylid symud i ffwrdd o wrandawiaadau ple a chyfarwyddo a mathau eraill o wrandawiaadau cyn treial i

gael cydweithrediad rhwng y partïon yn ôl amserlenni safonol neu amserlenni wedi eu haddasu, a lle bynnag y bydd angen, drwy geisio cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y llys.

211. Dylid cael amserlenni safonol cenedlaethol a rhestri o weithrediadau allweddol wrth baratoi ar gyfer treial ym mhob un o'r tair adran yn y Llys Troseddol unedig newydd, gydag amrywiadau priodol i fodloni categorïau o achosion sydd o natur wahanol ac sy'n gymhleth.
212. Dylai'r Adran Ynadon, wrth ddsbarthu achosion i Adran y Goron neu'r Adran Ranbarthol, a lle bo hynny'n briodol, mewn achosion ynadol mewn gwrandawriad gweinyddol cynnar, roi i'r partïon yr amserlen a'r rhestr safonol briodol, gan gynnwys dyddiadau ar gyfer datgelu gan y naill ochr a'r llall a dyddiad o fewn cyfnod byr ar ôl datgelu eilaidd ar gyfer 'asesiad cyn treial'.
213. Dylai'r partïon, drwy gytundeb neu drwy roi rhybudd i'w gilydd, fod yn rhydd i ofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan lys y treial i amrywio'r amserlen safonol.
214. Dylai'r partïon ymdrechu i baratoi ar gyfer treial yn unol â'r amserlen a rhestru gweithrediadau allweddol sy'n briodol i'r achos ac i ddatrys rhyngddynt a'i gilydd unrhyw faterion o gyfraith, trefn neu dystiolaeth a all lunio hyd y treial a/neu effeithio arno a phryd y gall ddechrau.
215. Dylai'r amserlen ym mhob achos osod dyddiad ar gyfer yr 'asesiad cyn treial', hynny yw, asesiad gan y partïon a'r llys o gyflwr parodrwydd ar gyfer y treial.
216. Erbyn dyddiad yr asesiad cyn treial, dylai'r partïon gwblhau ac anfon at lys y treial restr archwilio yn dangos y cynnydd wrth baratoi a'r parodrwydd ar gyfer y treial, a cheisio cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig lle mae hynny'n briodol.
217. Dim ond os bydd y llys neu'r partïon yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er mwyn paratoi'n amserol ac yn effeithlon mewn ffordd arall ar gyfer y treial ac ar gyfer ei gynnal y dylid cael gwrandawriad cyn treial, er enghraifft, lle bydd un neu ragor o'r partïon yn methu cydymffurfio â'r amserlen, neu lle mae materion heb eu datrys sy'n effeithio ar baratoi'n effeithlon ar gyfer y treial neu ar gyfer ei gynnal, neu lle bydd yr achos yn ddigon difrifol neu gymhleth fel y bydd angen arweiniad y llys.
218. Lle bydd gwrandawriad cyn treial, a'r diffynnydd yn y carchar ac yn caniatáu, ni ddylid dod ag ef i'r llys, ond dylai gymryd rhan ynddo i'r graddau sy'n angenrheidiol drwy gyfrwng cyswllt fideo â'r carchar lle mae'n cael ei gadw.
219. Dylai'r barnwr neu'r ynadon sy'n cynnal gwrandawriad llafar cyn treial gael y grym i roi cyfarwyddiadau neu osod dyfarniadau rhwymol yn amodol ar amrywiad wedyn neu ryddhau os bydd cyfiawnder yn golygu bod hynny'n ofynnol.
220. Lle bydd gwrandawriad cyn treial yn angenrheidiol oherwydd bod un neu'r llall o'r partïon neu'r ddau barti yn methu cydymffurfio heb reswm da â'r amserlen neu gyfarwyddiadau eraill y llys, neu i ddatrys materion trefn, cyfraith neu ffaith rhyngddynt, dylai'r llys gael y grym:
 - 220.1 i wneud unrhyw orchymyn i dalu adfocad amddiffyniad sy'n cael ei dalu o gronfeydd cyhoeddus i fod yn bresennol yn y gwrandawriad fel sy'n briodol yn yr amgylchiadau; a/neu yn gyhoeddus i geryddu adfo-

cad y naill barti neu'r llall neu'r rheiny sy'n ei gyfarwyddo fel sy'n briodol; ac unrhyw gerydd cyhoeddus felly i gael ei gyfathrebu i gorff proffesiynol y person sy'n cael ei geryddu a'i gymryd i ystyriaeth gan y corff hwnnw, a lle bydd y person wedi ei drwyddedu ar gyfer gwaith amddiffyn sy'n cael ei dalu o gronfeydd cyhoeddus, gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol; a/neu

220.2 i wneud unrhyw orchymyn costau yn erbyn y naill ochr neu'r llall neu'r ddwy ochr fel sy'n briodol.

221. Dylai pob dyfarniad llys yng nghwrs achos, gorchmynion neu gyfarwyddiadau mewn llysoedd troseddol, yn ôl eu strwythur presennol neu mewn Llys Troseddol unedig newydd, gael eu mynegi'n ysgrifenedig fel dogfen ffurfiol gan y llys a'u cyflwyno ar unwaith neu'n fuan wedyn i bob parti.

Rhestru a docedu (para 236 – 238, tudalennau 495 - 496)

222. Dylid symud i wneud mwy o ddefnydd o ddyddiadau treial penodedig mewn achosion sylweddol.

223. Dylid symud yn yr un modd i ddsbarthu achosion felly yn gynnar i farnwr ar gyfer rheoli'r achos a chynnal treial.

Technoleg gwybodaeth (para 256 – 261, tudalennau 501 - 504)

224. Dylai'r ddarpariaeth bresennol i ddefnyddio cysylltiad fideo â charchardai mewn gwrandawriadau cyn treial mewn llysoedd ynadon gael ei hystyngi i bob gwrandawriad felly mewn llysoedd troseddol; ac wrth i dechnoleg ddatblygu, dylid ystyried defnyddio technolegau gwe ar eu cyfer.

Terfynau amser (para 262 – 270, tudalennau 504 - 508)

225. Dylai'r cyfnodau cadwraeth uchaf presennol barhau, ond os bydd achosion traddodi ar gyfer troseddau 'naill-ffordd' yn cael eu dileu a/neu Lys Troseddol unedig yn cael ei sefydlu, dylai'r cyfnodau fod yn 56 diwrnod ar gyfer achosion treial ynadon (boed yn ynadol yn unig neu'n 'naill-ffordd') ac 182 ar gyfer y rheiny sy'n cael eu rhoi ar brawf fel arall.

226. Dylai Adran 22 o Ddeddf Erlyn Troseddau 1985 gael ei diwygio i alluogi llys i ystyried a chaniatáu estyn y terfyn amser mewn cadwraeth ar ôl i hwnnw ddod i ben, ond dim ond os bydd grym felly'n cael ei ddiffinio'n fanwl, gan gynnwys darpariaeth y dylai'r llys ganiatáu estyniad dim ond pan fydd yn fodlon bod lles cyhoeddus grymus o wneud hynny.

227. Dylid darparu hawl apelio effeithiol y tu allan i'r amserlen gadwraeth yn erbyn gwrthod estyniad o fewn y cyfnod.

Cod trefn droseddol (para 271 – 280, tudalennau 509 - 513)

228. Dylid codeiddio cyfraith trefn droseddol, ond mewn dau gam:

228.1 yn gyntaf, dylid gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ddrafftio deddfwriaeth i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth gynradd a'r ddeddfwriaeth eilaidd bresen-

nol, o bosibl ar y cyd ag ychydig godeiddio yn y rheolau cyfraith gwlad pwysicaf ac annadleuol.

- 228.2 yn ail, dylid sefydlu Pwyllgor Rheolau Trefn Droseddol Statudol i ddrafftio un cod trefn ar gyfer Llys Troseddol unedig, gan ailddatgan ac ail-lunio statud a chyfraith gwlad, arfer, cyfarwyddiadau arfer barnwrol a chanllawiau eraill fel sy'n ofynnol.
229. Dylai'r cod, y dylid ei fynegi'n glir ac mewn Cymraeg a Saesneg syml, ddarparu cyn belled ag y mae'n ymarferol set gyffredin o reolau ar gyfer pob lefel awdurdodaeth, gyda rheolau gwahanol dim ond i'r graddau y maent yn ofynnol ar gyfer gwahanol brosesau fforensig.
230. Dylai drafft y cod gael ei weithredu mewn deddfwriaeth gynradd ac eilaidd, a dylai'r Pwyllgor wedyn ei gynnal gan awgrymu diwygiadau, lle bydd angen i'r Arglwydd Ganghellor eu cymeradwyo a chychwyn diwygiadau drwy ddeddfwriaeth eilaidd gan ddibynnu ar benderfyniad negyddol neu gadarnhaol fel sy'n briodol.
231. Yn ei holl weithgareddau, dylai'r Pwyllgor fod o dan oruchwyliaeth gyffredinol y Cyngor Cyfiawnder Troseddol.
232. Dylai fod yn ddyletswydd statudol ar y Llywodraeth i gyfeirio at y Pwyllgor bob cynigiad i ddiwygio cyfraith trefn droseddol.
233. Dylai'r Pwyllgor Rheolau Trefn Droseddol gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Brif Ustus a dylai'r aelodaeth gynnwys Is-Lywydd y Llys Apêl (Adran Droseddol), Barnwr Llywyddu Uwch, o leiaf ddau Farnwr Uchel Lys a dau Farnwr Cylchdaith yn eistedd mewn achosion o droseddu, ynghyd â nifer priodol o Farnwyr Rhanbarth, ynadon a chlercod ynadon, nifer o ymarferwyr trosedd profiadol o ddwy gangen y proffesiwn, ac o leiaf un academydd sy'n arbenigo yn y maes, ynghyd â chynrychiolwyr priodol cyrff gwirfoddol sydd â diddordeb uniongyrchol yng ngwaith y llysoedd troseddol.
234. Dylai'r Pwyllgor gael ei gefnogi gan staff amser-llawn o gyfreithwyr a gweinyddwyr sy'n brofiadol yng ngwaith y llysoedd troseddol.

PENNOD UN AR DDEG Y TREIAL: TREFN A THYSTIO LAETH

Dechrau treial rheithgor (para 15 – 24, tudalennau 518 - 523)

235. Ym mhob achos sy'n cael ei roi ar brawf gan farnwr a rheithgor:
- 235.1 dylai pob rheithiwr ar ddechrau'r treial gael copi o'r cyhuddiad neu'r cyhuddiadau;
- 235.2 dylai'r barnwr ar ddechrau'r treial gyfarch y rheithgor, eu cyflwyno'n gyffredinol i'w tasg fel rheithwyr, a rhoi iddynt amlinelliad gwrthrychol o'r achos a'r cwestiynau y mae'n rhaid iddynt eu penderfynu;

- 235.3 dylai'r barnwr ychwanegu at ei anerchiad agoriadol, a darparu i bob rheithiwr gopi o grynodedb achos a materion ysgrifenedig wedi ei baratoi gan adfocadau'r partïon a'u cymeradwyo ganddynt;
- 235.4 dylai'r barnwr, yn ystod ei gyfarchiad cyflwyno, a'r talfyriad achos a dadleuon nodi:
- natur y cyhuddiadau;
 - *fel rhan o draethiad byr*, y dystiolaeth sydd wedi ei chytuno, gan adlewyrchu addefiadau'r naill ochr a'r llall yn y man priodol yn y stori;
 - *hefyd fel rhan o'r traethiad*, y materion ffeithiol sy'n detsun dadl; a
 - heb unrhyw gyfeiriad at y gyfraith, neu cyn lleied â phosibl, restr o gwestiynau tebygol iddynt eu penderfynu.
236. Os bydd y pynciau'n cyfyngu neu'n ehangu yn ystod y treial, ac i'r graddau y bydd hynny'n digwydd, dylai'r talfyriad achos a dadleuon gael ei ddiwygio a dylid darparu copïau o'r newydd i'r barnwr a'r rheithgor.

Amcangyfrifon amser (para 25 – 26, tudalennau 523 - 524)

237. Dylai adfocadau ystyried ei bod yn bwysig tu hwnt geisio rhoi amcangyfrifon cywir o hyd tebygol tystiolaeth eu prif dystion, gan gynnwys arolwg ohonynt wrth i'r materion ddod yn gliriach yn ystod paratoi ar gyfer y treial.

Areithiau agoriadol (para 27 – 28, tudalennau 524 - 525)

238. Yr wyf yn cefnogi argymhelliad Comisiwn Brenhinol Runciman y dylai fod gan adfocad yr amddiffyniad hawl i wneud araith agoriadol fer gerbron y rheithgor yn union ar ôl araith adfocad yr erlyniad, ond dim mwy nag ychydig funudau fel rheol.

Prif dystiolaeth (para 29 – 33, tudalennau 525 - 527)

239. Dylai sgriniau a chyfarpar taflunio fod ar gael yn helaethach i alluogi cyflwyno tystiolaeth mewn dull electronig mewn achosion priodol.

Achos yr amddiffyniad (para 35, tudalen 528)

240. Ni ddylai adfocad yr amddiffyniad sy'n gwneud araith agoriadol fer ar ôl agoriad yr erlyniad drwy hynny fforffedu ei hawl i wneud araith agoriadol ar ddechrau achos yr amddiffyniad.
241. Ni ddylai hawl adfocad yr amddiffyniad i wneud araith agoriadol ar ddechrau achos yr amddiffyniad ddibynnu mwyach ar y cwestiwn a yw'n bwriadu galw tyst ffeithiau ar wahân i'r diffynnydd.

Cymryd stoc (para 37 – 39, tudalennau 529 - 531)

242. Ar ddiwedd y dystiolaeth a chyn yr areithiau, dylai'r barnwr a'r adfocadau, yn absenoldeb y rheithgor, yn y diwedd arolygu'r talfyriad achos a dadleuon, ac

os bydd angen, ei ddiwygio ar gyfer y rheithgor.

243. Dylai trefn felly, ynghyd â'r drefn sydd eisoes wedi ei sefydlu gan y Llys Apêl i adolygu dadleuon tystiolaeth a dadleuon cyfreithiol yn y man hwn mewn treial, gael ei hystyried i'w chynnwys yn benodol yn y Cod Trefn Droseddol yr wyf wedi ei argymhell, ac yn y cyfamser gan yr Arglwydd Brif Ustus i roi cyfarwyddyd arfer penodol.
244. Os nad yw'r gyfraith â chodau ymddygiad proffesiynol yn golygu bod angen i adfocad yr amddiffyniad yn ogystal ag adfocad yr erlyniad geisio cywiro gwall cyfreithiol neu ffaith bwysig gan farnwr y daw i wybod amdano, ac i'r graddau y mae hynny'n digwydd, dylid newid y gyfraith a'r codau i'w wneud yn ofynnol.

Cyfarwyddiadau barnwyr am bwyntiau cyfreithiol a chrynhoi (para 41 – 55, tudalennau 532 - 538)

245. Dylid ystyried cynnwys yn y Cod Trefn Droseddol yr wyf wedi ei argymhell, ac yn y cyfamser mewn cyfarwyddyd arfer gan yr Arglwydd Brif Ustus, ofyniad i farnwr ddefnyddio talfyriad achos a dadleuon ac unrhyw gymorth ysgrifenedig neu gymorth gweledol arall a ddarperir i reithgor, fel rhan integredig o'i grynhoi, gan gyfeirio at y pwyntiau ynddynt bob yn un wrth iddo ddelio â hwy ar lafar.
246. Dylai llysoedd ddarparu i farnwyr gymhorthau gweledol eraill wrth grynhoi, megis PowerPoint a mathau o feddalwedd cyflwyno sy'n datblygu, ac mewn achosion sy'n haeddu hynny dylent ystyried eu defnyddio.
247. Cyn belled â phosibl, ni ddylai'r barnwr gyfarwyddo'r rheithgor am fater cyfreithiol, heblaw drwy awgrymu yn y cwestiynau ffeithiol y mae'n eu cyflwyno iddynt i'w penderfynu.
248. Dylai'r barnwr barhau i atgoffa'r rheithgor am y dadleuon, ac ar wahân i'r achosion symlaf, y dystiolaeth sy'n berthnasol iddynt, a dylai bob amser roi i'r rheithgor adroddiad digonol am yr amddiffyniad, ond dylai wneud hynny mewn ffurf fwy cryno nag sy'n gyffredin ar hyn o bryd.
249. Dylai'r barnwr ddyfeisio a chyflwyno i'r rheithgor gyfres o gwestiynau ffeithiol ysgrifenedig, a'r ateb i'r rheiny'n gallu arwain yn rhesymegol dim ond at ddedfryd o euog neu ddiueog; dylai'r cwestiynau gyfateb i'r rheiny yn y talfyriad achos a dadleuon sydd wedi ei ddiweddarau, gan ychwanegu ato yn ôl yr angen mewn rhestr ysgrifenedig ar wahân wedi ei pharatoi at y diben, a dylai pob cwestiwn gael ei lunio gan ddilyn y gyfraith yn ôl sut mae'r barnwr yn gyfarwydd â hi ac yn ôl y dadleuon a'r dystiolaeth yn yr achos.
250. Dylai'r barnwr, lle mae'n ystyried ei bod yn briodol, gael ei ganiatáu i'w gwneud yn ofynnol i reithgor ateb yn gyhoeddus bob un o'i gwestiynau ac i gyhoeddi dyfarniad yn unol â'r atebion hynny.

Treial gan farnwr ac ynadon yn yr Adran Ranbarthol (para 57 – 60, tudalennau 538 - 540)

251. Yr Adran Ranbarthol:
 - 251.1 dylai'r gyfraith gael ei barnu gan y barnwr yn unig;

- 251.2 dylai'r barnwr a'r ynadon gyda'i gilydd farnu'r ffeithiau, bob un ohonynt â phleidlais gyfartal;
- 251.3 dylai'r barnwr fel rheol gynnal unrhyw wrandawiadau cyn treial ar ei ben ei hun;
- 251.4 dylai'r barnwr gael y grym i osod dyfarniadau rhwymol cyn treial fel y byddai barnwr Adran y Goron;
- 251.5 dylai'r barnwr ddyfarnu ar faterion cyfreithiol, trefn a derbynoldeb tystiolaeth yn absenoldeb yr ynadon pryd bynnag y bydd yn ystyried y byddai o bosibl yn rhagfarnu'r diffynnydd yn annheg i wneud hynny yn eu presenoldeb;
- 251.6 dylid dilyn yr un drefn o ran areithiau a strwythur treial ag yn Adran y Goron;
- 251.7 ni ddylai'r barnwr grynhoi'r achos i'r ynadon, ond ar ôl ymneilltuo gyda hwy i ystyried penderfyniad y llys, dylai gyhoeddi dyfarniad wedi ei resymu'n gyhoeddus gan y llys; a
- 251.8 y barnwr yn unig ddylai fod yn gyfrifol am ddedfryd.

Treial yn yr Adran Ynadon (*para 62 – 64, tudalen 541*)

- 252. Dylai strwythur a threfn treial yn Adran Ynadon Llys Troseddol unedig newydd ddilyn yn fras y rheiny yn y llysoedd ynadon presennol.

Trefn wedi ei thalfyrru (*para 65 – 67, tudalennau 542 - 543*)

- 253. Dylai pob awdurdod erlyn ddefnyddio darpariaethau adran 12 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 fel y mae wedi ei diwygio i benderfynu achosion lle bydd pledio'n euog neu lle bydd prawf o euogrwydd yn absenoldeb y diffynnydd.

Tystiolaeth

Egwyddorion cyffredinol (*para 76 – 78, tudalennau 546 - 547*)

- 254. Dylai cyfraith Loegr o dystiolaeth droseddol yn gyffredinol symud i ffwrdd o reolau technegol yr hyn na ellir ei dderbyn, i roi ffydd mewn pobl farnwrol a phobl leyg sy'n darganfod ffeithiau i roi i dystiolaeth berthnasol y pwysau y mae'n eu haeddu.

Atgoffa/datganiadau tystion (*para 81 – 85, tudalennau 548 - 551*)

- 255. Fel cam cyntaf a/neu o fethu mabwysiadu'r argymhelliad sy'n dilyn ar gyfer defnyddio datganiadau tystion ymlaen llaw fel tystiolaeth, dylid ystyried gwneud fel yr unig amod i dyst gael defnyddio datganiad ysgrifenedig i atgoffa fod rheswm da dros gredu y byddai wedi gallu cofio'r digwyddiadau dan sylw lawer iawn yn well wrth ei wneud neu ei ddilysu nag wrth roi tystiolaeth.

Datganiadau blaenorol gan dystion fel tystiolaeth (para 86 – 94, tudalennau 551 - 556)

256. Dylid ystyried diwygio'r gyfraith o ran derbynioldeb datganiadau tystion er mwyn y canlynol:
- 256.1 lle bydd tyst wedi gwneud datganiad blaenorol, ar ffurf ysgrifenedig neu wedi ei recordio, dylai fod yn dderbyniol fel tystiolaeth o unrhyw fater a nodir ynddo, lle byddai ei dystiolaeth lafar uniongyrchol yn yr achos yn dderbyniol cyn belled ag y bydd yn ei ddilysu fel ei ddatganiad ef;
- 256.2 dylai fod yn rhan integredig o'r rheol newydd y dylai datganiad blaenorol diffynnydd o ran egwyddor fod yn dderbyniol p'un a yw'n cefnogi neu'n niweidio'i achos, a dylai'r ffaith y gall ymddangos yn hunan-lesol ychwanegu dim ond at y pwysau; a
- 256.3 dylid caniatáu i'r tyst, lle mae'n briodol, fabwysiadu'r datganiad ar y llwyfan tystio fel ei brif dystiolaeth.
257. Dylid ystyried dros gyfnod hir ymestyn y darpariaethau presennol ar gyfer defnyddio tystiolaeth wedi ei recordio ar fideo i gynnwys tystiolaeth pob tyst hanfodol mewn achosion o droseddau difrifol, ynghyd â darpariaeth lle bydd angen o gofnod a/neu drawsgrifiadau neu dalfyriadau o dystiolaeth felly a hefyd o hynny wrth groes-holi ac ail-holi.

Tystiolaeth achlust (para 95 – 104, tudalennau 556 - 560)

258. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddiwygio'r rheol yn erbyn tystiolaeth achlust, yn enwedig gyda golwg ar wneud tystiolaeth achlust yn gyffredinol yn dderbyniol yn amodol ar egwyddor tystiolaeth orau, yn hytrach nag yn gyffredinol yn annerbyniol yn amodol ar eithriadau penodol fel y cynigir gan Gomisiwn y Gyfraith.
259. Yn y cyswllt hwn, fel gyda thystiolaeth mewn achosion troseddol yn gyffredinol, dylid symud i ffwrdd oddi wrth reolau annerbynioldeb i roi ffydd yn y rheiny sy'n darganfod y ffeithiau i asesu pwysau'r dystiolaeth.

Tystiolaeth annheg (para 105 – 111, tudalennau 560 - 563)

260. Fel rhan o ddiwygio cyfraith tystiolaeth droseddol yn gyffredinol fel yr wyf wedi ei argymhell, dylid ystyried rhesymoli a symleiddio gwahanol ffurfiau rheolau cyfraith statudol a chyfraith gwlad ar gyfer peidio â chynnwys tystiolaeth am ei bod yn annheg, a gohirio erlyniad am gamddefnyddio proses oherwydd tystiolaeth a gafwyd yn amhriodol.

Camymddwyn blaenorol gan ddiffynnydd/Tystiolaeth ffeithiau tebyg (para 112 – 120, tudalennau 563 - 568)

261. Dylid ystyried adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith sydd ar fin cael ei gyhoeddi ar dystiolaeth mewn achos troseddol oherwydd camymddwyn diffynnydd yng nghyd-destun arolwg ehangach o gyfraith tystiolaeth droseddol, gan roi sylw'n arbennig i unrhyw reol sy'n afresymegol, yn aneffeithiol ac yn

gymhleth, beth bynnag fo'i ffurf, gyda'r bwriad o gadw euogfarnau blaenorol diffynnydd oddi wrth bobl leyg sy'n darganfod y ffeithiau, ond nid pobl broffesiynol sy'n darganfod y ffeithiau.

Tystiolaeth arbenigol (para 129 – 151, tudalennau 571 - 582)

262. Dylid ystyried canolbwyntio mewn un corff proffesiynol sy'n ei lywodraethu ei hun yng Nghymru a Lloegr y swyddogaeth o osod, neu oruchwylio gosod, safonau ac ymddygiad ar gyfer gwyddonwyr fforensig ym mhob disgyblaeth, cynnal cofrestr achredu ar eu cyfer, a rheoleiddio cydymffurfio â'i hamodau achredu.
263. At y dibenion hynny, dylai'r cyrff niferus presennol o dystion arbenigol sy'n darparu ar gyfer pob un o'r disgyblaethau gwyddor fforensig neu'r rhan fwyaf ohonynt ystyried cyfuno â'r Cyngor Cofrestru Ymarferwyr Fforensig, neu ganolbwyntio eu hadnoddau yn y Cyngor hwnnw.
264. Dylai'r Rheolau Trefn Droseddol newydd yr wyf yn eu hargymell gynnwys rheol yn yr un geiriau neu eiriau tebyg i'r rheiny yn Rhan 35.3 o'r Rheolau Trefn Sifil mai i'r llys y mae prif ddyletswydd tystion arbenigol.
265. Dylai unrhyw ddatganiad gan dyst neu adroddiad wedi ei baratoi gan dyst arbenigol i gynorthwyo'r llys gynnwys ar y dechrau ddatganiad wedi ei lofnodi i'r perwyl hwnnw.
266. Dylai grym llysoedd troseddol i reoli derbyn tystiolaeth arbenigwyr gael ei ffurfioli yn y Rheoliadau Trefn Droseddol newydd yr wyf wedi eu hargymell, a'i osod ar sail debyg i honno ar gyfer y Llysoedd Sifil fel sydd wedi ei osod allan yn y Rheolau Trefn Sifil, Rhan 35, 1 a 4, sef drwy osod ddyletswydd arnynt a datgan eu grym, i gyfyngu tystiolaeth arbenigol i hynny sy'n rhesymol ofynnol i ddatrys unrhyw fater o bwys yn yr achos.
267. Dylai barnwyr ac ynadon yn rymus ddefnyddio'r prawf sy'n llywodraethu'r grym hwnnw a'r ddyletswydd honno, a dylai'r Llys Apêl eu cefnogi.
268. Mewn achosion amddiffyn sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, lle mae barnwr neu lys ynadon wedi cyfarwyddo y gellid cyfiawnhau galw arbenigwr amddiffyn, dylai'r cyfarwyddyd hwnnw gynnwys awdurdod i wario arian cyhoeddus ar arbenigwr ar gyfradd benodedig.
269. Pan fydd dadl am fater o bwys lle mae angen tystiolaeth arbenigol, ni ddylai fod gan y llys y grym i benodi na dewis arbenigwr, p'un a yw hynny'n hepgor y naill ochr neu'r llall rhag galw'i thystiolaeth arbenigol ei hun neu beidio.
270. Lle nad oes dadl, neu lle bydd y partïon yn fodlon y dylai'r mater gael ei benderfynu gan un arbenigwr, dylid eu hannog i ddelio â'r mater fel hynny, gan gytuno ar ei adroddiad neu dalfyriad ohono fel rhan o'r dystiolaeth yn yr achos.
271. Dylai'r erlyniad a'r amddiffyniad fel rheol drefnu i'w harbenigwyr drafod ac ar y cyd i nodi mor gynnar â phosibl cyn y treial y pynciau hynny maent yn cytuno arnynt a'r rheiny lle nad ydynt yn cytuno, ac i baratoi datganiad ar y cyd i'w ddefnyddio fel tystiolaeth i ddynodi graddau eu cytundeb a thalfyriad o'r rhesymau dros eu hanghytundeb.

272. O fethu cael trefniant felly, dylai fod gan y llys y grym i gyfarwyddo trafodaeth felly, a nodi materion a pharatoi datganiad ar y cyd i'w ddefnyddio fel tystiolaeth, ac i wneud unrhyw gyfarwyddiadau dilynol a all fod yn briodol ym mhob achos.
273. Dylid rhoi sylw manwl i unrhyw arolwg pellach a chyffredinol o'r rheol yn erbyn tystiolaeth achlust, i gynyddu dibyniaeth labordai gwyddor ffforensig a nifer o arbenigwyr mewn rhai disgyblaethau ar gofnodi, dadansoddi a throsglwyddo data yn electronig.
274. Dylai ymarferwyr cyfreithiol ddefnyddio cynadleddau fideo yn helaethach a thechnoleg newydd arall sy'n datblygu i gyfathrebu ac ymgynghori ag arbenigwyr wrth baratoi ar gyfer treial.
275. Dylai'r gyfraith a darpariaeth cyfleusterau cenedlaethol gael eu datblygu i alluogi arbenigwyr i gyflwyno tystiolaeth drwy gyfrwng cyswllt fideo neu dechnolegau newydd eraill mewn achosion priodol.

Cyfieithwyr (*para 155 – 162, tudalennau 584 - 587*)

276. Dylai'r Llywodraeth barhau i annog canolbwyntio yn y ddwy Gofrestr genedlaethol fel sy'n briodol ar swyddogaeth goruchwylio hyfforddiant, achrediad a monitro cenedlaethol o berfformiad cyfieithwyr, gyda'r bwriad o ddarparu nifer digonol yn genedlaethol ac yn lleol o gyfieithwyr gyda chymwysterau priodol.
277. Dylai hyfforddiant ac achrediad yr holl gyfieithwyr gynnwys elfennau sylfaenol ymholiadau troseddol a threfn llysoedd, a dylid darparu ar gyfer gofynion daearyddol sy'n newid ac yn wahanol am gyfieithwyr.
278. Dylai'r Llywodraeth ystyried ariannu'n ganolog sefydliadau addysg bellach i'w paratoi, lle bydd angen, i ddarparu cyrsiau mewn ieithoedd llai adnabyddus ar gyfer y Diploma mewn Cyfieithu yn y Gwasanaeth Cyhoeddus.
279. Dylai'r Llywodraeth drefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol mewn sefydliadau addysg bellach a cholegau eraill i gefnogi'r ddwy Gofrestr genedlaethol.
280. Dylid gwneud arolwg o lefel tâl cyfieithwyr gyda'r bwriad o annog mwy o gyfieithwyr a chyfieithwyr sydd â'r cymwysterau gorau i wneud y gwaith hwn, ac o sefydlu graddfa dâl genedlaethol.
281. Dylai cyfieithwyr gael cyfleusterau sy'n briodol i un o swyddogion y llys wrth fynychu'r llys i ddarparu eu gwasanaethau.
282. Dylai'r rhestr archwilio safonol ar gyfer cytundeb neu gyfarwyddiadau sy'n arwain at yr asesiad cyn treial ei gwneud yn ofynnol i bawb dan sylw fynegi wrth y llys mewn da bryd cyn dyddiad y treial yr angen am gael cyfieithydd, gan nodi'r parti neu'r tyst y bydd ei angen ar ei gyfer a'r iaith.
283. Dylai'r rhestr archwilio hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r partïon gytuno, neu os byddant yn methu cytuno, i geisio cael cyfarwyddiadau'r llys, ar gyfer darparu i'r cyfieithydd mewn da bryd cyn y treial unrhyw ddogfennau sy'n debygol o'i gynorthwyo yn ei dasg yn y llys.

- 284. Dylai cyfieithydd a gyflogir gael yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Llys am fynediad felly.
- 285. Ym mhob achos lle caiff dogfennau felly eu darparu i gyfieithydd neu lle caiff fynediad iddynt, dylai hynny ddigwydd o dan amgylchiadau lle bydd yn addo diogelu eu cyfrinachedd tan y treial, neu fel arall o dan amodau diogelwch yn ôl cyfarwyddyd y llys.
- 286. Dylai safonau arfer gorau wrth ddylunio adeiladau llys newydd gael eu datblygu a dylai cyfarpar gael ei addasu mewn llysoedd sydd eisoes yn bod i ddarparu lle a chyfleusterau digonol i gyfieithwyr.

Gwybodaeth am y llys (*para 163 – 168, tudalennau 588 - 590*)

- 287. Dylid gwneud cynnydd yn gynnar i ddarparu ym mhob canolfan llys neu grŵp o ganolfannau llys, fel sy'n briodol, y pethau canlynol:
 - 287.1. ei wefan ei hun sy'n cynnwys gwybodaeth am achosion wedi eu rhestru i'w gwranddo yn y dyfodol a'r dyddiadau sydd wedi eu pennu neu eu hamcangyfrif ar gyfer eu gwranddo, rhestri dyddiol o achosion a gwybodaeth am eu cynnydd, a gwybodaeth gyffredinol am y ganolfan llys, teithio iddi a chyfleusterau lleol; a
 - 287.2 system gwybodaeth teleffon awtomatig i roi gwybodaeth debyg.
- 288. Dylid gwneud cynnydd yn gynnar hefyd i ddarparu ym mhob canolfan llys:
 - 288.1 fyrddau bwletin electronig yn dangos cynnydd achosion sydd wedi eu rhestru bob dydd; a
 - 288.2 diagramau o gynllun ystafelloedd y llys mewn mannau aros ac arwyddion cyfatebol y tu mewn i bob ystafell llys.

Amserau eistedd (*para 169 – 178, tudalennau 590 - 593*)

- 289. Dylid gwneud archwiliad trwyadl o'r angen am ymestyn oriau gwaith llysoedd a chostau/buddiannau hynny, gan gynnwys defnyddio llysoedd hwyrnos, nos a phenwythnos boed fel darpariaeth gyffredinol neu ar gyfer ardaloedd lle mae llawer iawn o droseddau difrifol a/neu fân.
- 290. Dylid darparu, pan fydd swyddfeydd ar gau, gymorth gweinyddol i bobl sy'n defnyddio'r llys drwy gyfrwng desgiau cymorth, y teleffon a dulliau electronig i gael cyngor neu wybodaeth, talu dirwyon, cael ffurflenni ac yn y blaen.

Gwisg yn y llys (*para 179 – 184, tudalennau 594 - 595*)

- 291. Dylai'r Farnwriaeth Uwch, drwy ymgynghori â phob lefel yn y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol ac unrhyw gyrff priodol eraill, ystyried a chynghori'r Arglwydd Ganghellor am y wisg llys ffurfiol, os o gwbl, y dylai barnwyr, bargyfreithwyr a chyfreithwyr ei gwisgo yn y dyfodol yn y Goruchel Lys Cyfiawnder a'r Llys Sirol.

Dulliau cyfarch (*para 185 – 187, tudalen 596*)

292. Dylai'r Farnwriaeth Uwch, drwy ymgynghori â phob lefel yn y farnwriaeth, yr ynadaeth, y proffesiynau cyfreithiol ac unrhyw gyrff priodol eraill, ystyried a chynghori'r Arglwydd Ganghellor am ddulliau cyfarch ym mhob llys yn y dyfodol.

Iaith y llys (*para 188 – 189, tudalen 597*)

293. Dylai Pwyllgor Rheolau Trefn Droseddol archwilio holl weithdrefnau, ffurflenni a themau'r llys gyda'r bwriad o symleiddio eu hiaith a'u cynnwys.

Llwon a chadarnhadau (*para 190 – 196, tudalennau 598 - 600*)

294. Dylai llw a chadarnhad y tyst gael eu disodli gan addewid difrifol i ddweud y gwir.
295. Dylai llw a chadarnhad y rheithiwr gael eu disodli gan addewid yn y ffurf ganlynol neu ffurf debyg: "Yr wyf yn addo profi'r diffynnydd a phenderfynu ar sail y dystiolaeth a yw'n euog neu beidio".

Dedfrydu (*para 197 – 226, tudalennau 600 - 610*)

296. Dylid sefydlu'n gynnar wasanaeth gwybodaeth dedfrydu ar-lein ar gyfer yr holl farnwyr amser-llawn a rhan-amser. Dylai'r system gynnwys:
- 296.1 cofnod ystadegol o ddedfrydau a osodwyd yn y llysoedd troseddol ar bob lefel, wedi eu dadansoddi yn ôl nodweddion allweddol yr achosion;
 - 296.2 datganiad am egwyddorion dedfrydu a thestun dyfarniadau mewn achosion allweddol drwy gyfrwng llawlyfr dedfrydu ar-lein; a
 - 296.3 gwybodaeth ar-lein wedi ei diweddarau am y cyfleusterau dedfrydu a'r cyfleusterau cysylltiedig sydd ar gael.
297. Dylai'r system gwybodaeth dedfrydu fod ar gael ar-lein i'r cyhoedd a'r cyfryngau a dylid ei llunio gan gadw eu hanghenion hwy hefyd mewn cof.
298. Dylid ystyried rhoi i'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol y cyfrifoldeb dros sefydlu a gweinyddu system gwybodaeth dedfrydu, gan ddarparu adnoddau digonol iddo at y diben.
299. Yr wyf yn cefnogi'r argymhelliad yn Adroddiad Arolwg Dedfrydu Halliday i greu awdurdodaeth arolygu dedfrydau i'r llysoedd troseddol, cyn belled ag y gellir datrys anawsterau adnoddau ac anawsterau ymarferol.

PENNOD DEUDDEG APELAU

Y profion apeliadol (*para 5 - 11, tudalennau 612 - 615*)

300. Dylid cael yr un profion ar gyfer apelio yn erbyn euogfarnu a dedfrydu yn y drefn honno ar bob lefel apelio islaw Pwyllgor Apeliadol Tŵ'r Arglwyddi, sef y rheiny sy'n gymwys i'r Llys Apêl.

301. Dylid ystyried diwygio'r prawf statudol o fod yn anniogel fel y sail dros ddi-dymu euogfarn er mwyn egluro a yw i fod yn gymwys, ac i ba raddau, i euogfarnau a fyddai'n cael eu hystyried yn ddiogel yn yr ystyr gyffredin ond sy'n dilyn diffyg proses briodol cyn neu yn ystod treial.

Apelau o lysoedd ynadon (*para 14 – 35, tudalennau 616 - 623*)

302. Dylid dileu hawl diffynnydd i apelio i Lys y Goron, drwy gyfrwng ailwrandawriad, yn erbyn euogfarn a/neu ddedfryd yn y llys ynadon.
303. Dylid disodli hwnnw gan hawl i apelio i Adran y Goron (Llys y Goron), gyda chaniatâd y llys hwnnw, ar yr un sail ag y byddai'n cefnogi apêl o Adran y Goron (Llys y Goron), yn eistedd yn ei swyddogaeth wreiddiol, i'r Llys Apêl.
304. Dylai Adran y Goron (Llys y Goron) i'r diben hwn olygu barnwr yn eistedd ar ei ben ei hun a allai fod, yn ôl natur a phwysigrwydd yr apêl, yn Farnwr Uchel Lys, Barnwr Cylchdaith neu Gofriadur.
305. Ni ddylid cael hawl i apelio o'r Adran Ynadon (llysoedd ynadon) i'r Uchel Lys drwy gyfrwng apêl ar ffurf achos wedi ei ddatgan neu ar ffurf hawliad am arolwg barnwrol.

Apelau o Lys y Goron i'r Llys Apêl (*para 36 - 44, tudalennau 623 - 627*)

306. Lle ceisir herio penderfyniad Adran y Goron (Llys y Goron) yn eistedd yn ei swyddogaeth apeliadol:
- 306.1 ni ddylid cael hawl i herio i'r Uchel Lys drwy apêl ar ffurf achos wedi ei ddatgan neu ar ffurf hawliad am arolwg barnwrol;
- 306.2 yn hytrach, dylai apêl fynd i'r Llys Apêl yn unig o dan ei awdurdodaeth apeliadol gyffredinol wedi ei hystyried, yn ôl yr angen ac os bydd angen, i gynnwys materion y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd gan rwymedïau apêl drwy gyfrwng achos wedi ei ddatgan neu hawliad am arolwg barnwrol, ac ar gyfer hynny dylai'r llys gael ei gyfansoddi'n briodol; a
- 306.3 dylai pob apêl felly fod yn agored i ganiatâd y Llys Apêl, a dylai roi hwnnw dim ond mewn achos sy'n cynnwys pwynt pwysig o egwyddor neu arfer, neu lle bydd rhyw reswm annorfod arall i'r Llys ei wrando.
307. Lle bwriedir herio penderfyniad Adran y Goron (Llys y Goron) yn y lle cyntaf neu benderfyniad yr Adran Ranbarthol:
- 307.1 ni ddylid cael hawl i herio i'r Uchel Lys drwy apêl ar ffurf achos wedi ei ddatgan neu hawliad am arolwg barnwrol;
- 307.2 yn hytrach, dylai apêl fynd i'r Llys Apêl yn unig o dan ei awdurdodaeth apeliadol gyffredinol wedi ei hystyried, yn ôl yr angen ac os bydd angen, i gynnwys materion y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd gan rwymedïau apêl drwy gyfrwng achos wedi ei ddatgan neu hawliad am arolwg barnwrol, ac ar gyfer hynny dylai'r llys gael ei gyfansoddi'n briodol.

Hawliau apelio'r erlyniad (*para 47 - 65, tudalennau 627 - 636*)

308. Er fy mod yn cefnogi bwriad cyffredinol argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i gyflwyno eithriadau statudol yn y rheol perygl dwbl, yr wyf yn argymell:
- 308.1 na ddylai'r eithriadau gael eu cyfyngu i lofruddiaeth a throeddau cysylltiedig, ond y dylent ymestyn i droseddau difrifol eraill y gellir eu cosbi â charchar am oes a/neu gyfnodau hir o garchar fel y gall y Senedd eu pennu; ac
- 308.2 ni ddylid ailagor ymholiad i achos ar ôl rhyddhau heb ganiatâd ac argymhelliad personol y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ymlaen llaw o ran pa heddlu ddylai gynnal yr ymholiad.
309. Yr wyf hefyd yn cefnogi bwriad cyffredinol argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ar gyfer:
- 309.1 ymestyn y drefn agwedd baratoi bresennol i gynnwys rheoliadau y gellir apelio yn eu herbyn ar faterion terfynu posibl fel hollti, cyplysu, dileu'r ditiad neu ohirio'r erlyniad fel camddefnyddio proses;
- 309.2 rhoi i'r erlyniad yr hawl i apelio yn erbyn rhyddhau mewn rhai achosion sy'n deillio o ddyfarniad terfynu yn ystod y treial hyd at gau achos yr erlyniad; a
- 309.3 rhoi i'r erlyniad hawl i apelio yn erbyn rhyddhad sy'n deillio o ddyfarniad nad oes achos i'w ateb o dan ran gyntaf y rheol yn *R. v. Galbraith*.

Apelau yn erbyn euogfarnau gwrthnysig (*para 66 - 67, tudalennau 636 - 637*)

310. Lle bydd unrhyw reithfarn arbennig gan reithgor yn datgelu ar ei thelerau ei bod yn wrthnysig:
- 310.1 os yw'n rheithfarn euog, dylai'r amddiffyniad gael hawl i apelio i'r Llys Apêl, yn amodol ar y drefn ganiatáu arferol, ar y sail bod yr euogfarn yn anniogel oherwydd ei bod yn wrthnysig; ac
- 310.2 os yw'n rheithfarn ddiheuog, dylai'r erlyniad gael hawl i apelio i'r Llys Apêl, hefyd yn amodol ar ganiatâd, ar y sail fod y ffaith fod y rheithfarn yn wrthnysig yn awgrymu ei bod yn debygol o fod yn anwir neu'n annheg, ac felly'n haeddu ail dreial.

Trefn o ran apelau i'r Llys Apêl (*para 73- 101, tudalennau 639 - 651*)

311. Dylai barnwyr unigol y Llys Apêl gael amser i ystyried a phenderfynu ceisiadau ysgrifenedig am ganiatâd i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd yn eu siambrau fel rhan o'u cynllun eistedd rheolaidd.
312. Dylai fod gan farnwr unigol o'r Llys Apêl y grym, wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd i apelio, i roi cyfarwyddiadau trefn ar gyfer gwranddo'r cais neu'r apêl nad oes angen iddi drafferthu'r Llys Llawn, yn amodol ar hawl ar ran yr apelydd neu'r erlyniad, yn ôl yr achos, i adnewyddu'r cais i'r Llys Llawn.

313. Dylid ystyried cyfuno, neu gysylltu'n agosach o ran cynnwys ac amser, seiliau apelwyr dros apelio, a sgerbydau dadleuon, a gwneud addasiadau priodol i derfynau amser ar gyfer eu ffeilio a'u cyflwyno.

Ad-drefnu ac ailgyfansoddi'r Llys Apêl (*para 87- 94, tudalennau 644 - 647*)

314. Dylai'r Llys Apêl gael ei gyfansoddi'n amrywiol yn ôl natur, pwysigrwydd cyfreithiol a chymhlethdod ei waith:
- 314.1 mewn achosion lle mae mater o gyfraith sydd o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol neu o gymhlethdod arbennig neu ddiddordeb cyhoeddus, gan gynnwys achosion dedfrydu sy'n galw am ganllawiau neu sy'n cynnwys rhyw bwynt arall o egwyddor gyffredinol neu ddedfrydau cadw hir iawn, dylai'r Llys gynnwys yr Arglwydd Brif Ustus neu'r Is-Lywydd neu Arglwydd Ustus a dau Farnwr Uchel Lys;
- 314.2 mewn apelau syml yn erbyn euogfarn, neu mewn cysylltiad â dedfrydau byr lle mae'r gyfraith a'r drefn yn glir a'r unig ddadl yw a yw barnwr y treial wedi eu dilyn yn gywir, neu lle mae'r ddadl yn ymwneud â'i driniaeth o'r ffeithiau, dylai'r Llys gynnwys dau Farnwr Uchel Lys neu un Barnwr Uchel Lys ar un Barnwr Cylchdaith; a
- 314.3 dylid ystyried cyflwyno system lle gallai academydd o fri, mewn achosion o bwysigrwydd a chymhlethdod cyfreithiol eithriadol, naill ai gael ei benodi *ad hoc* i weithredu fel barnwr y Llys, neu gael ei wahodd i gyflwyno cefndir ysgrifenedig i'r Llys ar y mater(ion) sy'n destun dadl.
315. Un o farnwyr y Llys ddylai fod yn gyfrifol am ddsbarthu apelau i'r Llys Llawn fel y bydd wedi ei gyfansoddi'n amrywiol o dan yr argymhellion hyn, yn amodol ar arolwg gan y Llys Llawn cyn ac yn ystod gwrando'r apêl.

Arfer a threfn (*para 95 - 101, tudalennau 648 - 651*)

316. Dylai'r Llys, sut bynnag y bydd wedi ei gyfansoddi, 'arafu' – dylid rhoi i'w farnwyr fwy o amser i baratoi ac ysgrifennu dyfarniad fel rhan o'u cynllun eistedd, a dylai gwrandawiaid apelau fod yn fwy hamddenol er mwyn rhoi i adfocadau ddigon o amser i ddefnyddio'u dadleuon ac i farnwyr eu hystyried.
317. Dylai'r Arglwydd Brif Ustus ystyried cyhoeddi Cyfarwyddyd Arfer er mwyn i'r partïon baratoi'n well ar gyfer gwrandawriad, gan gynnwys darparu ar gyfer gwrandawiaid cyfarwyddo cyn apêl mewn achosion cymhleth, ffurf a chynnwys bwndeli apelio a hysbysiad ymlaen llaw i'r Llys am newidiadau ar y funud olaf sy'n debygol o effeithio ar gynnwys neu hyd yr apêl.
318. Dylai ymarferwyr troseddol ddarparu safon o wasanaeth i'r Llys ar yr un lefel ag sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan eu cydweithwyr yn y Llys Apêl (Adran Sifil), a dylent gael eu talu'n briodol amdano.
319. Mewn apelau euogfarn, dylai'r Llys gefnogi barnwyr treial wrth reoli a rhedeg achosion y treial yn gadarn, cyn belled na fydd wedi rhagfarnu tegwch y treial yn gyffredinol ac felly wedi peryglu diogelwch yr euogfarn.

- 320. Mewn apelau dedfryd, dylai'r Llys fod yn ofalus i beidio ag 'ymhel' â dedfryd y llys islaw, dim ond i ymyrryd lle mae'n anghywir o ran egwyddor, hynny yw, o'r math anghywir neu lawer yn rhy hir o dan yr amgylchiadau.
- 321. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron ystyried bob yn achos a ddylid ymddangos ar gyfer gwrando apêl yn erbyn dedfryd er mwyn gallu helpu'r Llys, os bydd angen ar sail materion ffeithiol, gan gynnwys yr effaith ar unrhyw un sydd wedi dioddef, neu ar sail cyfraith.

Comisiwn Arolygu Achosion Troseddol (*para 102 - 107, tudalennau 651 - 653*)

- 322. Dylai Adran 23A o'r Ddeddf Apelau Troseddol 1968 gael ei diwygio i ymestyn pŵer y Llys Apêl i gyfarwyddo'r Comisiwn Arolygu Achosion Troseddol i ymchwilio a pharatoi adroddiad am fater sydd mewn apêl, i fater mewn cais am ganiatâd i apelio.
- 323. Mewn unrhyw achos o gyfeirio euogfarn neu ddedfryd gan y Comisiwn i'r Llys Apêl neu Lys y Goron, dylai'r llysoedd hyn ddefnyddio'r gyfraith sydd mewn grym adeg yr euogfarn neu'r ddedfryd yn ôl yr achos.

Panel Ymgynghorol Dedfrydu (*para 108 - 111, tudalennau 653 - 655*)

- 324. Dylid diwygio'r gyfraith i ehangu cylch gwaith y Panel Ymgynghorol Dedfrydu i gynnwys egwyddorion cyffredinol dedfrydu, yn enwedig o ran defnyddio gan y llysoedd yr amrywiol ddewisiadau dedfrydu sydd ar gael iddynt, beth bynnag fo categori'r trosedd.
- 325. Dylid diwygio'r gyfraith i alluogi'r Llys Apêl i weithio'n agosach gyda chyn-gor y Panel ac ymateb iddo'n gyflymach, drwy roi grym iddo gyhoeddi canllawiau heb orfod eu clymu wrth apêl benodol sydd ger ei fron.

Apelau i Dŵ'r Arglwyddi (*para 112 - 117, tudalennau 655 - 658*)

- 326. Dylid ystyried cyflwyno system lle gallai academydd o fri, mewn achosion o bwysigrwydd cyfreithiol a chymhlethdod eithriadol, gael ei wahodd i gynorthwyo Pwyllgor Apeliadol, dyweder drwy gyflwyno cefndir ysgrifenedig, gyda chopiau i'r partïon, ar y materion sy'n destun dadl.
- 327. Ar faterion cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol, lle bydd penderfyniadau gan y Llys Apêl yn gwrthdaro, neu lle mae'r gyfraith arnynt fel arall mewn cyflwr mor anfodddhaol fel mai Tŵ'r Arglwyddi yn unig all ei phenderfynu, dylid ystyried cyflwyno math o apêl 'neidio dros gefn' o Adran y Goron (Llys y Goron) i Dŵ'r Arglwyddi, yn debyg i'r hyn a ddarperir ar gyfer apelau sifil gan Ran II o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1969.
- 328. Dylai Adran 34(2) o Ddeddf Apelau Troseddol 1968 gael ei diwygio i roi grym i Dŵ'r Arglwyddi a'r Llys Apêl, yn ôl yr achos, i ymestyn yr amser pan all erlynydd wneud cais am ganiatâd i apelio, fel sy'n digwydd yn achos diffynnydd.

